# y dinesydd

Hydref 2004 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 292


## Yr Urdd yn symud!

Mae prif swyddfa'r Urdd yn symud o Heol Conwy, Pontcanna i Ganolfan Mileniwm Cymru yn y Bae ar 11 Hydref. Bydd atgofion melys gan nifer helaeth o ddarllenwyr *Y Dinesydd* o'r hen adeilad, a fu'n galon i gymaint o weithgarwch diwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifddinas. Felly o hyn ymlaen, os am gartref i glwb neu gwyno am gam eisteddfodol, y bae yw'r lle i fynd!

Bydd prif Wersyll cyntaf yr Urdd am dros hanner can mlynedd yn agor ei ddrysau ar Dachwedd 26ain, 2004. Mae'r Gwersyll yn rhan o adeilad hynod gyffrous Canolfan Mileniwm Cymru a bydd yn cynnig profiadau celfyddydol unigryw a chyfle i aelodau'r Urdd ymweld â holl atyniadau prifddinas Cymru.

Mae lle i 153 o bobl aros dros nos yn y Ganolfan mewn ystafelloedd *en-suite* ac mae yno hefyd neuadd/theatr, lolfeydd, ffreutur ac ystafelloedd dosbarth. Crëwyd y Gwersyll gyda diogelwch plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth.

Bydd cyrsiau arbenigol celfyddydol yn y Gwersyll, ond byddwn hefyd yn trefnu ymweliadau i bob math o lefydd yng Nghaerdydd a'r ardal. Bydd cyfleoedd i ymweld â Stadiwm y Mileniwm, y Cynulliad, Techniquest, Sain Ffagan, Yr Amgueddfa Genedlaethol, Pwll Mawr, Castell Coch, Castell Caerdydd a llawer mwy. Gall ieuenctid Cymru hefyd weld sioe, gêm bêl-droed, criced, rygbi neu hoci iâ ac mae prisiau arbennig i'r rhai sy'n aros yn y Gwersyll i weld y ffilmiau diweddaraf, bowlio 10 a defnyddio holl gyfleusterau Pentref Hamdden Atlantic Wharf.

Gall pobl ifanc De Ddwyrain Cymru ymweld â'r Gwersyll heb breswylio gan fynychu sesiynau celfyddydol wythnosol, teithiau o amgylch Canolfan Mileniwm Cymru a'r cyfle i berfformio yn yr adeilad ar nosweithiau y Cyngherddau Mawr. Bydd y ganolfan hefyd yn gartref newydd i Ddawnswyr a Chôr Caerdydd.

Mae'r tîm rheoli eisoes wedi eu penodi gydag Alun Owens, gynt o Lan-llyn, yn Gyfarwyddwr, Tim Edwards o Rydaman yn Ddirprwy, Hywel Roberts o Bentyrch yn Swyddog Ieuenctid a Sandra Jones, sydd eisoes yn gweithio yn y swyddfa yng Nghaerdydd, yn Rheolwr Cegin a Llety.

Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Gwersyll ar y rhif ffôn newydd 02920 635678.

## ARDDANGOSFA

Bydd arddangosfa o ddarluniau diweddaraf Aneurin a Meirion Jones i'w gweld yn Oriel Washington, Ffordd Stanwell, Penarth rhwng y 10ed a'r 27ain o Hydref. Gelwir yr arddangosfa yn 'Goleuni'. Bydd llawer o'r lluniau yn gysylltiedig â gwaith Waldo Williams a aned ganrif yn ôl i'r flwyddyn hon. Agorir yr arddangosfa gan Dafydd Ellis Thomas, ar y 10fed o Hydref am 4 o'r gloch. Yn ogystal bydd M. Wyn Thomas CREW yn siarad am waith Waldo Williams yn ystod y noson. www.washgallery.co.uk

## Apêl am Arweinydd a Chyfeilydd

A fyddech chi'n hoffi arwain côr, neu gyfeilio?

Ydych chi efallai'n aelod o gôr eisoes? Does dim angen i chi fod â phrofiad na chymhwyster, ond digonedd o frwdfrydedd! Mae Côr Plant Caerdydd yn chwilio am arweinydd newydd yn ogystal â chyfeilydd a fyddai'n medru cymryd yr awenau yn y flwyddyn newydd. Cyfle gwych i fwynhau perfformio, i deithio'n helaeth ac i gael hwyl. Beth amdani?

Peidiwch â bod yn swil - cynigiwch eich hun neu aelod o'r teulu neu ffrind. Efallai yr hoffai dau/dwy ffrind wneud ar y cyd, un yn cyfeilio a'r llall i arwain.

Mae dyfodol y côr yn y fantol, ac efallai mai gennych chi y mae'r datrysiad! Am fwy o wybodaeth trowch at erthygl 'Côr Plant Caerdydd' ar dudalen 11.

## CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y DINESYDD

**Cyfarfod cyhoeddus sy'n agored i holl siaradwyr Cymraeg Caerdydd a'r cyffiniau**

**Nos Iau, 18 Tachwedd 2004, am 7.30 p.m. yng nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina.**

**Croeso cynnes i bawb.**

**Dewch i gwyno! Dewch i gefnogi!**

# Y Dinesydd

**www.dinesydd.com**

Cyhoeddir Y Dinesydd gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan gweHendre a'i argraffu gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.
**Golygyddion y rhifyn hwn:**
Nona Gruffudd-Evans ac Anna Gruffudd
**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Siân Parry-Jones
**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Tachwedd 2004 erbyn 23 Hydref at:**
Siân Parry-Jones, 87 Halliard Court, Glanfa Iwerydd, Caerdydd CF10 4NH (Ffôn: 07985-043633;
e-bost: sepj@cardiffbay.clara.co.uk).
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).
neu gol@dinesydd.com

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James. (Gweler uchod)

### DERBYN A DOSBARTHU COPIAU

Os ydych am dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post, neu am gynorthwyo gyda'r dosbarthu cysylltwch â CERI MORGAN, 43 Australia Rd, Y Mynydd Bychan, CFl4 3BZ Ffon: 029 20621634. e-bost: ceri33@btopenworld.com

### HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopiau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas.

Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd* y mis nesaf cysylltwch â CERI MORGAN, 43 Australia Rd, Y Mynydd Bychan, CFl4 3BZ Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

### CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL

Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r *Dinesydd*. Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i ymuno â'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau, golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd* (Gweler uchod)

### CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato yn 43 Australia Rd, Y Mynydd Bychan, CF 14 3BZ Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com

### APÊL Y DINESYDD

Mae pobl yn dal i anfon cyfraniadau i'r Apêl a dydy hi ddim yn rhy hwyr i chi anfon eich cyfraniad tuag at y Gronfa!

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

# CROESAIR Rhif 51
## gan Rhian Williams



**Ar Draws**

1. Dechrau codi yn fynych yr Aelod Seneddol o'r ffos (6)
4. Troi callestr anorffenedig yn gaer (6)
9. A yw lle organ yng ngolau'r lleuad? (7)
10. Dymuno wna y waudd yn wyllt (5)
11. Cymysgu eli o'r llofft (5)
12. Gwneud Trelai cyn Ionawr 1af yn ddirwedd (7)
13. 'os clyw ___ ___ ___ ac agor y drws, dof i mewn ato a swperaf gydag ef' (Datguddiad – BCN)
18. Cei fryd go ddyrys yn y Mans (7)
20. Chwarae ag offeryn sy'n llawn tlysau (5)
21. Peri a chrafu (5)
23. Cam bell yn colli'i synnwyr (7)
24. Dafydd bach ac hanner cant yn hanner tewi am rywbeth i wneud paned (4,2)
25. Rhoi pwysau ar undeb athrawon i droi cefn a thynnu'r llan yn ôl (6)

**I Lawr**

1. Codi llac a marc sillgoll (6)
2. 'Drain ac ysgall mall a'i medd,
   _____ lle bu mawredd.' (E.E.) (5)
3. Cwmpanu a maglu ych gwyllt (7)
5. Pwylla, mae Llu'r Awyr mewn cymdeithas yrru! (5)
6. Achosi trafferth mae Bryn i ti rywsut (7)
7. Tir agored yn swnio fel ysbeiliwr (6)
8. Yn drachtio cyn tarfu hyn druan (2,9)
14. Yn petruso cyn ffoli yn wirion (2,5)
15. Lle o allu o gwmpas Gwilym a'i bocedi (7)
16. Dieisiau, a di-arf, di-drefn (6)
17. 'Yn ei blyg uwchben ei ____
    Cerdd yn grwm a blin.' (Crwys) (6)
19. Mae ffrwydro teiar yn creu stŵr (5)
21. Allan o gromen y nos cei rywbeth i roi ar dy fara (5)

**Atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd. CF14 6AN**
**i gyrraedd erbyn 20 Hydref 2004.**

**Croesair Rhif 50**

**Ar draws:** 1. Clapgi; 4. Unedig; 9. Helfa; 10. Edmygwr; 11. Eon; 12. Awdurdodi; 13. Camddywediad; 18. Beddargraff; 21. Thad; 22. Dyladwy; 23. Gyrfa; 24. Sodrodd; 25. Bodlon. I lawr: 1. Cyhoedd; 2. Atlanta; 3. Gwaraidd; 5. Nemor; 6. Digio; 7. Gwraidd; 8. Led drwy'r byd; 14. Diffygio; 15. Amserol; 16. Abadeth; 17 Y drain; 19. Ddyled; 20. Radio.

Derbyniwyd 9 ymgais ac ond 4 ohonynt yn hollol gywir. Ymddiheuriadau am y cliw coll! Danfonir y tocyn llyfr i Heledd Hall, Treganna. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Gwenda Hopkins, Llanisien, H O Hughes, Pwllheli a Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd.

# Côr Canna ar y brig eto!

Hyd yn hyn, mae 2004 wedi bod yn flwyddyn brysur a llwyddiannus iawn i Côr Merched Canna.

Dros wyliau'r Pasg bu 35 o aelodau'r côr ar daith pum niwrnod i Sbaen. Cawsom groeso cynnes iawn gan bobl y Costa Blanca yn enwedig yn y ddwy gyngerdd a berfformiwyd gennym. Wrth ein hannerch ar ddiwedd yr ail gyngerdd, galwodd y Maer lleol ni yn "angylion ar y ddaear"! Efallai bod y canu yn angylaidd ond bu digon o ymlacio a joio Tapas a Sangria hefyd!!

Ddechrau mis Gorffennaf, cafodd y côr lwyddiant ysgubol yng Ngŵyl Fawr Aberteifi. Ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y corau merched yn y prynhawn ac yna mynd ymlaen i ennill Côr y Corau gyda'r nos - tipyn o gamp pan oedd bron i 30 o gorau yn yr Ŵyl i gyd! Daeth y gystadleuaeth honno â £1000 i'r coffrau yn ogystal â medal arbennig i'n harweinyddes, Delyth Medi Lloyd.

Ym mis Awst aethom i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd. Braf oedd gallu ymarfer ar fore'r gystadleuaeth yn ein cartref arferol yng nghapel Salem, Treganna, cyn teithio'r ychydig filltiroedd i'r maes. Mae'n rhaid bod Salem wedi dod â lwc i ni oherwydd Côr Canna ddaeth i'r brig allan o 7 o gorau merched! Cawsom feirniadaeth wych gyda'r beirniad yn dweud ein bod mewn categori ar ein pennau ein hunain. Llongyfarchiadau mawr i holl aelodau'r côr a diolch am eich gwaith caled - yn enwedig felly i Delyth. Rhaid diolch hefyd i Kim Morgans, ein cyfeilyddes a dderbyniodd glod uchel iawn gan y beirniad. Y tro hwn cawsom £750, cwpan i'w dal am flwyddyn a chafodd Delyth fedal arall at ei chasgliad!

Ar hyn o bryd rydym yn brysur yn ymarfer ar gyfer adran y corau merched yng nghystadleuaeth Côr Cymru. Cynhelir y rownd gyntaf ym mis Hydref, yr ail ym mis Chwefror a'r rownd derfynol ym Mis Mawrth. Gan fod angen rhaglenni cerddorol diddorol a gwahanol mwy neu lai ar gyfer pob rownd, mae digon o waith caled o'n blaenau!

Mae croeso cynnes iawn i aelodau newydd ymuno â ni. Rydym yn ymarfer yn Salem bob nos Lun am 7.30yh. Cysylltwch â Delyth Medi ar 029 2025 4468 os oes gennych ddiddordeb.

# Gweinidog am 50 Mlynedd

Llongyfarchiadau i'r Parchedig Milton a Mrs Rita Jenkins, Parc y Rhâth, Caerdydd ar ddathlu hanner canrif yn y Weinidogaeth.

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gwefreiddiol yng nghapel Tonyfelin, Caerffili ddydd Sul, y 19eg o Fedi, heb anghofio'r pryd bwyd amser cinio yn Bryn Meadows, Maesycwmer.

Roedd nifer o ddarllenwyr *Y Dinesydd* yno ac yn cymryd rhan yn y dathliadau.

Bydd rheswm pellach i ddathlu a diolch ar yr ail o Dachwedd – priodas aur...

Gwilym Dafydd

Canwyd y geiriau isod gan blant Tonyfelin, Caerffili yn oedfa Ddathlu'r Parchedig Milton Jenkins:

**Ein Mr J.**
Daethom yma heddiw i ddathlu
'da Mr J.,
hanner canrif o bregethu
gan Mr. J..
Ffyddlon fu i'r Arglwydd Iesu
wrth fedyddio a chenhadu,
wrth fugeilio'i braidd a'u dysgu
ein Mr J..

Bu yn dilyn tîm Llanelli,
ein Mr J.,
ers yn grwtyn llawn direidi
ein Mr J..
Ond fe welodd y goleuni,
nawr mae'n gyson yn cefnogi
gwyrddion glew hen dref Caerffili
ein Mr J..

Eirian Dafydd

# Cymro Cymraeg yn Llywydd Undeb Myfyrwyr Caerdydd

Etholwyd Gary Rees o Bontarddulais yn Llywydd Undeb Myfyrwyr Caerdydd 2004/05. Gary yw'r Cymro Cymraeg cyntaf ers saith mlynedd i'w ethol i'r swydd. Mae Gary yn un o'r wyth o Swyddogion Sabathol a etholwyd i ffurfio gweithgor yr Undeb eleni, ef yw'r unig un sy'n medru'r Gymraeg. Ers ei ethol ym mis Mai mae Gary wedi bod yn cydweithio'n agos â Swyddog Materion Cymreig UCM (Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr) er mwyn cynllunio arddangosfa ddwyieithog o weithgareddau'r Undeb er mwyn addysgu myfyrwyr newydd. 'Rwyf am gyflwyno'r iaith mewn ffurfiau newydd a chyffrous i'r myfyrwyr di-Gymraeg a darparu gweithgareddau Cymraeg i bawb eu mwynhau' meddai.

Mae Gary am weld parhad tudalen Gymraeg papur y myfyrwyr, '*tafod*' ac am weld dathliad go iawn o Ddydd Gŵyl Dewi. Mae Gary'n benderfynol y bydd yr Undeb yn lle cwbl ddwyieithog. Mae Gary hefyd yn trefnu y bydd bandiau Cymraeg yn chwarae yn y Rali a gynhelir ar yr ail o Ragfyr yn erbyn ffioedd ychwanegol i fyfyrwyr. 'Bydd cynnyrch o Gymru yn cael eu gwerthu yn y siop yma hefyd' meddai. Yn awyddus iawn i gydweithio â'r Gymdeithas Gymraeg (GymGym) yn ogystal, mae'n argoeli'n flwyddyn Gymreig i Undeb Myfyrwyr Caerdydd o'r diwedd! Pob Lwc Gary!

# AMSER STORI

Mae TWF yn trefnu Amser Stori (wythnosol) ar gyfer plant 0-5 oed bob bore Gwener am 10.30 yb. yn llyfrgell yr Eglwys Newydd, Ffordd y Parc. Mae llyfrgell Rhiwbeina a Threganna hefyd yn awyddus i ail gychwyn ei Amser Stori cyn gynted â phosib. Amser Stori Rhiwbeina: Bob bore Iau am 10.30 yb Amser Stori Treganna: Bob prynhawn Mercher am 2.15 yp.

Mae angen grŵp o wirfoddolwyr/ rhieni ar rota sy'n medru'r iaith neu sy'n dysgu i ddarllen stori syml i'r plant. Mae'r llyfrgell yn darparu gweithgaredd i gyd-fynd â'r llyfr.

Os oes gennych chi ddiddordeb cysylltwch â Catrin Saunders ar 20651580.

# Cynrychioli Cymru a Phrydain yn Sbaen

Cafodd Rebecca Jarman o Benarth, sy'n aelod o chweched dosbarth Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, ei dewis yn gynrychiolydd Cymru a Phrydain ar *Ruta Quetzal*, sef cwrs mis yn Sbaen, Portiwgal a Mecsico dros wyliau'r haf. Bu'n rhaid iddi ymgeisio am ysgoloriaeth drwy ysgrifennu traethawd estynedig yn Sbaeneg ar losgfynyddoedd yn America Ladin. Cafodd ei gwahodd am gyfweliad yn llysgenhadaeth Sbaen yn Llundain a'i dewis fel unig gynrychiolydd Cymru a Phrydain ar y cwrs antur yma. Cafodd y profiad anhygoel o ddringo llosgfynyddoedd, o deithio drwy'r jyngl, croesi afonydd a chwrdd â brenin a brenhines Sbaen, a hynny mewn criw o ieuenctid o bedwar ban byd. Dyma ychydig o'i hanes...

Mae atgofion yr haf bellach braidd yn niwlog - nid o ganlyniad i wyliau gwyllt yn Ibiza, neu oherwydd i mi gael gormod o haul wrth dorheulo, ond am i mi dreulio'r rhan helaethaf o Fehefin a Gorffennaf yn teithio ar hyd ac ar led Mecsico, Sbaen a Phortiwgal ar ôl ennill ysgoloriaeth gyda'r mudiad *Ruta Quetzal*. Petai rhywun wedi fy rhybuddio y byddai'n bosib i 350 o bobl ifanc o 48 o wledydd, nid yn unig i gyd-weithio, ond i droi'n ffrindiau oes o fewn 6 wythnos, ni fuaswn wedi ei gredu.

Rwy'n edrych yn ôl ac yn pendroni drosodd a throsodd sut yn union wnaeth hyn ddigwydd mewn byd mor anwadal, mewn byd lle mae cymdogion mor aml yn atgas i'w gilydd, yn wleidyddol, yn grefyddol ac yn syniadol. Mae gen i luniau o faneri Israel a Phalesteina, Ciwba a'r Unol Daleithiau ochr yn ochr, sy'n brawf o'r berthynas agos a bythgofiadwy a ffurfiwyd, er gwaethaf y gwahaniaethau gwleidyddol a chymdeithasol. Roedd yr agwedd hon, o holl brofiadau'r daith, wedi llwyddo i godi calon rhywun, gan roi llygedyn o obaith. Dyma yn sicr oedd bwriad pellgyrhaeddol y daith – rhoi her a chyfleoedd i ieuenctid dros y byd i ymuno â Sbaenwyr llwyddiannus wrth anturio.

Ymhlith rhai o'r uchafbwyntiau yr oedd dringo tri llosgfynydd, gan gynnwys un yng nghanol y jyngl, ymweld â phyramidiau Astecaidd, nofio mewn lagŵn ac yng nghysgod rhaeadr, cwrdd â brenin a brenhines Sbaen a theithio ar un o longau'r llynges. Roedd pob diwrnod yn cynnwys elfen o antur - hyd yn oed wrth deithio ar fws gwelwn ffordd arall o fyw, ac wrth sgwrsio dysgwn am ddiwylliannau eraill.

Ym Mecsico, cawsom groeso cynnes ym mhobman, er gwaethaf yr holl dlodi. Cawsom yr argraff eu bod yn bobl hapus iawn. Yn Sbaen, gwelsom dorfeydd yn dod i'n cyfarch ar ein teithiau, yn cymeradwyo ac yn tynnu lluniau. Roedd pobl yn ein hadnabod am fod y *Ruta* yn enwog iawn yn Sbaen.

Y peth anoddaf am y cyfan oedd dychwelyd, nid gorfod treulio amser oddi cartref, cysgu heb wely a siarad Sbaeneg yn barhaus. Roedd yn syniad rhyfedd meddwl am ddychwelyd a ffarwelio â ffrindiau y bûm yn dibynnu gymaint arnynt yn ystod y daith. Roedd codi am chwech bob bore wedi dod yn arfer, a mynd heb gawod am bump o ddiwrnodau yn dderbyniol. Mae fy ngwerthoedd yn sicr wedi newid. Mae'n rhyfedd dod adref a cheisio addasu i flaenoriaethau newydd o'm cwmpas unwaith eto.

Profiad unigryw ydoedd ac mae gennyf hanesion bythgofiadwy i'w hadrodd i'm plant ac i blant fy mhlant. Mae gen i ddigonedd o awydd nawr i weld rhagor o'r byd!

Llongyfarchiadau i Wyn Jones a Mari Tomos ar eu priodas yn Aberystwyth ym mis Awst. Mae Wyn a Mari yn dysgu yn Ysgol Gymraeg Plasmawr. Maent wedi ymgartrefu yn Y Tyllgoed.

# Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Gwerfyl a Tomos Morse ar enedigaeth Aneurin Daniel yn ystod mis Awst. Mae Gwerfyl yn ferch i Huw a'r Parchedig Lona Roberts,Llanisien.

Llongyfarchiadau i Efa Gruffudd Jones a Huw Onllwyn Jones ar enedigaeth Dafydd Siôn yn Ysbyty Llandochau ar y 25ain o Awst.

Llongyfarchiadau i Nia Elin ac Adrian Davies ar enedigaeth Martha ym mis Awst. Mae wyneb Nia'n gyfarwydd i ni fel cyflwynwraig rhaglenni i blant ar S4C.

Llongyfarchiadau i Sara Morgan a Henry Downe ar enedigaeth eu merch, Gwen.

Llongyfarchiadau i Buddug a Neil Cole ar enedigaeth eu mab, Ioan, a aned ym mis Medi.

Llongyfarchiadau i Kevin ac Einir Davies, Radyr, ar enedigaeth eu merch, Grug Ifan ar y 17eg o Fedi, chwaer i Jac, ac wyres i Rhiannon ac Eifion Evans, Llansannan, a Myfanwy ac Elgan Davies, Capel Newydd, Aberteifi. Roedd Kevin ar flaen rhifyn Medi o'r Dinesydd fel perchennog 'ffa' yn Radyr.

**I Grug Ifan**

Ganwyd 2.40am, Gwener 17 Medi 2004.

**Daethost i'r byd yng nghanol nos,**
**Dod i'r tywyllwch, megis seren dlos;**
**Ac wedi dod, d'oleuni sydd**
**Yn troi pob nos yn ganol dydd.**

**Robin Gwyndaf**
(Brawd i Rhiannon Evans)

Llongyfarchiadau i Matthew a Bethan Jubb, Y Mynydd Bychan ar enedigaeth Gwenno Angharad ar y 18fed o Awst, chwaer i Heledd Mair.

**Cylch Meithrin Treganna**
Canolfan Gymunedol Treganna
Dewch yn llu i TI a FI
rhwng 9.30 a 11.30 fore Llun
i chwarae ac i gymdeithasu
o dan arweiniad Sally.
Croeso i rieni/gwarchodwyr â phlant hyd 4 oed.

# YSGOL PLASMAWR

**Diwrnod ymwybyddiaeth o Gymreictod**
Yn aml iawn, nid yw disgyblion mewn ysgolion Cymraeg yn sylweddoli y defnyddir yr iaith yn helaeth y tu allan i ffiniau'r ysgol. Mewn byd ble mae'r iaith Saesneg yn dominyddu pob cymdeithas, rydym yn credu bod dyletswydd arnom fel athrawon i atgoffa disgyblion bod yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gyson, boed yn y gweithle neu yn gymdeithasol.

Trefnwyd llu o weithgareddau ar y 17eg o Fedi i'r holl ysgol er mwyn cadarnhau eu Cymreictod.

Bl 7: Wythnos yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog i'w paratoi at fywyd yn Ysgol Plasmawr.

Bl 8: Diwrnod o Dechnoleg, coginio, canu pop gyda Caryl Parry Jones, caligraffeg, celf, dylunio crysau T, creu gemwaith a chreu fideo o ddigwyddiadau'r dydd.

Bl 9: Mynydda, hwylio, rygbi gyda chymorth Brynmor Williams a Non Evans, yoga gyda Siân Langstaff, dringo a rhwyfo.

Bl 10: Ymweliadau â Stiwdio Tinnopolis, Castell Caerdydd, Sain Ffagan a Pharc Diwydiannol y Rhondda.

Bl 11: Coluro gyda Babs Evans o'r BBC, gweithdai actio gyda Tara Bethan, creu cartwnau gyda Cen Williams, creu gwefannau gydag Iwan Stanley o'r BBC a gweithdy roc (cyfansoddwyd dwy gân gan nifer o fechgyn blwyddyn 11!)

Bl 12+13: Diwrnod menter a thrafodaethau am bwysigrwydd Cymreictod wedi cyrraedd y Brifysgol.

Dyma farn disgybl am un gweithgaredd;

**Mynydda**
Pan gyrhaeddon ni Fannau Brycheiniog roedd parc bach ac fe chwaraeom yn y parc i ddechrau. Roedden ni yno am tua 20 munud ac wedyn aethom ni lan y mynydd. Dechreuom gerdded lan, roedd yn galed ar y dechrau ac wedyn yn haws. Ar y ffordd lan roedd y fyddin yn ymarfer yno. Fe wnaethom gerdded dros yr afon a oedd yn hwyl ac fe gwympais i mewn. Roeddwn yn wlyb o fy mhen i fy nhraed! Mwynheais y diwrnod yn fawr.

Shaun Bull, bl 9

**Wythnos blwyddyn 7 yn Llangrannog**
Roedd disgyblion bl 7 yn gyffrous iawn wrth feddwl am dreulio wythnos yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog - heb rieni yn dweud y drefn a heb ffŷs a ffwdan brodyr a chwiorydd iau!!

Wedi siwrne anghyfforddus iawn dyma ni'n cyrraedd Llangrannog. Rhuthrom i ollwng ein bagiau yn ein cabanau er mwyn cael amser i archwilio'r gwersyll. Roedd pob math o weithgareddau i'w gwneud yno, gan gynnwys nofio, gwibgartio, sgïo,



**Dringo – un o weithgareddau'r Diwrnod Ymwybyddiaeth o Gymreictod**

marchogaeth ceffylau, cwrs rhaffau a sglefrolio. Roedd y cwad beicio yn boblogaidd ond yn beryglus!

Wedi bod mor brysur yn ystod y dydd cawsom nosweithiau tawel a chynnar - NA! Pêl-fasged, hoci, pêl-droed, ras sachau a hyn i gyd mewn un noson! Cwis ar noson arall yn ogystal â bingo. Uchafbwynt yr wythnos oedd y disgo. Roedd yn wych. Pawb yn dawnsio ac yn edrych yn drawiadol - ar wahân i'r athrawon!

Ffab, bril, cŵl – roedd yr wythnos yn Llangrannog yn sicr yn wythnos i'w chofio!!

Mirain Phillips, bl 7

## Chweched dosbarth Plasmawr

**Cwrs Anwytho Prifysgol Morgannwg**
Cafodd 140 o fyfyrwyr bl 12 a 13 brofiad o fywyd Prifysgol ar eu cwrs anwytho eleni. Roedd y cwrs deuddydd ar gampws y Brifysgol yn hynod lwyddiannus gyda chyfraniadau gwerthfawr gan Dr Natalie Williams o Adran Wleidyddiaeth Aberystwyth, Robin Samuel o Gymorth Cristnogol a gan Hywel Gwynfryn ar fater y Gymraeg yn y Cyfryngau. Roedd sesiynau gan Ffion Rees o fl 13 Ysgol Gyfun Rhydfelen, a dreuliodd yr haf yn cynnal gweithdai drama ar HIV yn Uganda a Rebecca Jarman o Blasmawr, a dreuliodd fis ym Mecsico, yn afaelgar, ac yn rhannu profiadau ysgytwol â myfyrwyr y chweched dosbarth.

Gyda'r nos cynhaliwyd dawns yng Nghlwb y Bont, Pontypridd gyda Catsgam a dderbyniodd groeso twymgalon.

Cwrs amrywiol a difyr felly – a'r chweched dosbarth bellach yn gafael o ddifrif yn eu cyrsiau academaidd.

**Cyflwyno siec**
Pleser oedd croesawu Mr Dave Clough, Dirprwy Brifathro Ysgol Craig y Parc i wasanaeth y chweched fis Medi i gyflwyno siec o £1,400 tuag at adnewyddu'r pwll nofio yn yr ysgol, sef apêl y chweched yn ystod y llynedd. Diolchodd Mr Clough am gyfraniad mor hael i'r prosiect, yn ogystal â chyfraniad gwirfoddol amryw o fyfyrwyr

**Cwrs anwytho Bl 12/13 Plasmawr yng Nghlwb y Bont**

i'r ysgol yn ystod eu gwersi rhydd.

**Ysgol Deuddydd Prifysgol Aberystwyth**
Teithiodd deuddeg o fyfyrwyr y Chweched i Aberystwyth ar gyfer yr Ysgol Deuddydd – nododd nifer ohonynt eu bwriad o ymgeisio am le yn y Brifysgol yn ystod y flwyddyn nesaf ar sail eu profiadau amrywiol!

**Croeso i Gyn- ddisgyblion**
Cafodd Bl13 hwyl yn gwrando ar brofiadau Anthony, Helena, Sarah, Sioned, Cara a Ffion yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y Brifysgol. Gwych oedd croesawu Rhodri Williams hefyd yn ôl i sôn am ei flwyddyn naid yn gweithio mewn chalet yn Les Deux Alpes ac fel gwirfoddolwr mewn pentref Oes yr Haearn yn Nenmarc. Dymunwn yn dda iddynt ac i holl fyfyrwyr yr ysgol wrth iddynt ddychwelyd i'w colegau a'u prifysgolion.

Mathew Evans,
Pennaeth y Chweched Dosbarth.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Gwennan Harries, bl12 ar gael ei chynnwys yn sgwad pêl-droed Cymru ar gyfer gemau rhagbrofol Cwpan y Byd yn erbyn Rwmania, Bwlgaria a Lloegr – tipyn o gamp yn wir gan mai Gwennan yw'r ieuengaf o bell ffordd yn y tîm cyfan!

**Ras am fodrwy!**
Llongyfarchiadau mawr i nifer o athrawon Ysgol Plasmawr a wnaeth ddyweddïo dros y gwyliau haf :
Carwyn Jenkins o Lanmadog a Menna Simpson o'r Eglwys Newydd
Vicky Wilmott o Gwm Rhymni a Geoff Pitman o Gaerdydd
Rachael Pursglove o Fali, Sir Fôn a Richard White o Gaerdydd
Gary Davies ac Elizabeth Pugh o Gydweli
Huw Williams o Dreoes a Claire Jones o Ben y Bont ar Ogwr.

**Sioe Gerdd Ysgol Plasmawr**
Bydd disgyblion yr ysgol yn perfformio'r sioe gerdd Pum Diwrnod o Ryddid yn Neuadd Ysgol Plasmawr ar Dachwedd y 9fed, 10fed ac 11eg. Bydd y sioe yn dechrau am 7.30pm. Pris y tocynnau fydd £6 i oedolion a £4 i blant. Dewch i'r ysgol i brynu tocynnau gan Mrs Siriol Wilde neu'r Brif Swyddfa.

# Cymorth Cristnogol Lleoliad newydd

Fel y mae'r rhan fwyaf o ddarllenwyr 'Y Dinesydd' yn gwybod y mae symud yn gallu bod yn ben tost a thipyn o broblem, yn enwedig ar ôl treulio cyfnod hir mewn un man.

Yn ddiweddar fe fu'n rhaid i Gymorth Cristnogol wynebu'r profiad o orfod codi gwreiddiau, sy'n mynd yn ôl deng mlynedd ar hugain. Fel y gellir dychmygu yr oeddem wedi hen ymgartrefu yn yr Eglwys Newydd, ac yn gwneud defnydd helaeth o gyfleusterau fel y Swyddfa Bost, banciau, caffis a siopau. Yn falch iawn o'r cyfle i bicio fewn i Siop y Felin i brynu cerdyn neu lyfr a chael sgwrs yn Gymraeg. Roedd ein cefnogwyr yn gwybod lle'r oeddem ni, ac yn galw i mewn i'n gweld pan yn yr ardal.

Ond pan benderfynodd y YMCA, perchnogion yr adeilad yn Ffordd yr Eglwys, adleoli eu pencadlys i Abertawe, doedd gyda ni ddim dewis ond chwilio am rywle arall i fynd.

Wedi pwyso a mesur sawl lle yng nghyffiniau Caerdydd, dyma benderfynu mentro i Radyr. Er ychydig bach ymhellach allan o'r ddinas, mae'n swyddfa braf gyda digon o le, ychydig funudau o'r orsaf drên, parcio yn rhwydd, Swyddfa Bost a banc cyfleus, siopau eraill a bonws – siop goffi ffa, dros y ffordd!

Yn naturiol yr oedd yn chwith i adael yr Eglwys Newydd, ond cawsom groeso mawr eisoes, a nifer o'n ffrindiau a'n cefnogwyr wedi galw i'n gweld.

Beth am alw os ydych yn yr ardal - Rhif 5, Heol yr Orsaf, Radyr? Y mae croeso a gwên bob amser gan Nerys a Julie, cewch gyfle i weld ein hadnoddau a sgwrs gyda Jeff, Robin neu Eirian. Edrychwn ymlaen at eich gweld.

Robin Samuel

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU
CYMREIG A CHELTAIDD
PRIFYSGOL CYMRU

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Darlith Goffa JE Caerwyn Williams a Gwen Williams

***'Proffwydoliaeth a Chenedligrwydd yng Nghymru'r Oesoedd Canol'***

**Dr Peredur Lynch**
**(Prifysgol Cymru Bangor)**

**Nos Fawrth, 19 Hydref 2004**
am 5.30pm

yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau,
Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd

*Croeso cynnes i bawb*

*Am wybodaeth bellach cysylltwch â:*
Mary Leyshon, Adran Cysylltiadau Cyhoeddus, Prifysgol Caerdydd,
46 Plas y Parc, Caerdydd CF10 3AT
*LeyshonMC@Caerdydd.ac.uk*

**ENFYS**
Cardiau a grefftwyd gyda llaw ar werth am brisiau rhesymol.
**Medrir eu personoleiddio**
91, HEOL ALBANY, Y RHATH, CAERDYDD
029 20460833
Croesawir ymholiadau gan ddosbarthwyr

**Andrew Lewis**
**Pensaer**
**Pob math o gynlluniau ar gyfer tai newydd, estyniadau**
**Ffon: (01446) 795330**
**neu (07710) 038309**

**GWRES GWYN**
Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?
Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones
Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209
**Ty Gawlo Isaf, Cefn Mably. CF3 6LP**
**07974 80 30 89**
CORGI REGISTERED GAS INSTALLER
gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

**TRYDANWR**
gyda dros 20 mlynedd o brofiad
Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd
*PRISIAU RHESYMOL*
Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar **029 20868208**
neu **07967 558664**

# YSGOLORIAETH S4C I GERDDORION IFANC DAWNUS

Mae dau gerddor ifanc o Gaerdydd, sydd eisoes wedi dod i'r brig, wedi ennill ysgoloriaethau gan S4C.

Mae'r feiolinydd Benjamin Roskams a'r gantores Katherine Allen, ill dau o'r Eglwys Newydd yng Nghaerdydd am ddefnyddio'r ysgoloriaethau i barhau a'u hastudiaethau cerddorol.

**Benjamin Roskams**

Mae Benjamin, 23 oed, a fynychodd Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd a'r Academi Gerddoriaeth Frenhinol, am ddychwelyd i Lundain i astudio cwrs pellach yn y Guildhall School of Music and Drama. Meddai, "Dwi'n gobeithio astudio cwrs offerynnol pellach o dan arweiniad David Takemo yn y Guildhall yn Llundain a dwi'n falch iawn fod S4C wedi fy newis i fel un o ddeiliaid yr ysgoloriaeth eleni."

Mae Benjamin hefyd yn chwarae'r fiola mewn pedwarawd ond nid yw'n berchen ar yr offeryn ar hyn o bryd. "Dwi am roi arian yr ysgoloriaeth tuag at fiola newydd fydd yn sicr o wella fy chwarae," meddai rhwng ymarferion ar gyfer cyngerdd yn Neuadd Conway, Llundain ar 24 Medi.

**Katherine Allen**

Bydd Katherine Allen, a fynychodd Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd a Phrifysgol Caerdydd, ac sydd bellach yn byw yn Twickenham, yn cychwyn diploma ôl-raddedig yn yr Academi Frenhinol yn Llundain. Mae Katherine, sy'n mezzo soprano, wedi hen ennill ei phlwyf fel cantores wedi iddi ganu yn y Dathliadau Gŵyl Ddewi yn Efrog Newydd.

Gwobrwywyd pum ysgoloriaeth i gyd. Mae'r tair arall wedi eu hennill gan Fflur Wyn o Frynaman, Tristan Rhys Williams o Lanfairpwll a Mari Wyn Williams o Lanberis.

# YSGOL BRO MORGANNWG

**CRYFHAU'R TÎM RHEOLI**

Gyda'r ysgol wedi tyfu ym mis Medi i dros 700 o ddisgyblion a'r criw TGAU cyntaf yn mynd drwy'r system, mae'r Corff Llywodraethol wedi cytuno i ddiwygio a chryfhau'r Uwch Dim Arwain er mwyn rheoli'r cyfrifoldebau ysgol gyfan gynyddol yn effeithiol.

Penodwyd dau Bennaeth Cynorthwyol newydd – Dr Helen Baker yn gyfrifol am y Cwricwlwm ac Asesu, a Ms Meinir Thomas yn gyfrifol am Ddatblygiad Proffesiynol. Maent yn ymuno ag aelodau presennol yr Uwch Dim Arwain, sef Dr Dylan Jones (Pennaeth), Ms Rhian Griffiths (Dirprwy Bennaeth) a Mr Ithel Davies (Pennaeth Cynorthwyol).

Llongyfarchiadau'n ogystal i Mr Jonathan Owen sydd wedi ei benodi'n Swyddog Arholiadau, i Ms Catherine Evans sydd wedi ei phenodi'n Gydlynydd ABCh, ac i Ms Rhian Morgan sydd wedi ei phenodi'n Arweinydd Pwnc Ieithoedd Tramor Modern.

**STAFF NEWYDD**

Mae'r Corff Llywodraethol hefyd yn falch o gyhoeddi'r penodiadau canlynol i swyddi dysgu newydd y tymor hwn:

Technoleg Gwybodaeth – Ms Olive Corner
Almaeneg – Ms Ceri Anwen James
Gwyddoniaeth – Mr Arwel Jones, Mr James Edwards
Addysg Gorfforol – Mr Rhys Beynon, Ms Anna Leyshon
Cymraeg – Ms Sioned Jones
Saesneg – Ms Amanda James

Croeso cynnes iddyn nhw i gyd i Ysgol Gyfun Bro Morgannwg.

**CELFWAITH UNIGRYW**

Mae Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn un o naw ysgol yng Nghaerdydd a'r Fro sydd wedi bod yn gweithio gyda'r arlunwraig Katrina Willis. Bu disgyblion TGAU Blwyddyn 10 a dau ddosbarth o ddisgyblion Blwyddyn 8 yn gweithio tuag at greu dau groglun ar thema aml-ddiwylliedig. Roedd hyn yn gyfle arbennig i ddisgyblion weithio ar y cyd i greu gwaith fydd yn cael ei arddangos yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn y lle cyntaf a hefyd i fanteisio ar y cyfle i ddatblygu sgiliau newydd fel llifo defnydd, argraffu sgrin a batik. Trefnwyd y cynllun gan Katrina Willis ar gyfer Race Equality First ac fe noddwyd y gwaith gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

**DIOLCH CRYF**

Hoffai Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, **cryf**, ddiolch o galon i bawb a gefnogodd ein gweithgareddau amrywiol yn ystod 2003-04. Llwyddwyd unwaith eto i godi swm anrhydeddus dros ben - tua £12,000 - a fydd yn cynorthwyo'r ysgol i brynu system goleuo a sain i alluogi defnyddio'r neuadd ar gyfer perfformiadau theatrig. Mae hyn yn golygu fod y gymdeithas wedi codi dros £30,000 mewn dwy flynedd, sy'n arbennig o dda o ystyried mai ychydig dros 500 o ddisgyblion oedd yn yr ysgol hyd at ddiwedd y tymor diwethaf.

# YSGOL GLANTAF

## Trip i Baris

Cafodd blynyddoedd 8 a 9 gyfle i fynd ar drip bythgofiadwy yn ystod tymor yr haf i Baris. Roedd yn drip llwyddiannus iawn. Mewn 4 bws, teithiom dros 400 o filltiroedd i gyrraedd Paris. Roedd y tywydd yn annisgwyl, glaw a chymylau duon ar y ffordd draw ac ar y ffordd yn ôl! Daeth 16 aelod o staff gyda ni, 4 i bob bws. Mae'n rhaid eu bod wedi blino'n arw ar ôl cyrraedd adref fel pob un o'r disgyblion!

Gadawon ni yr ysgol fore Mercher y 7fed o Orffennaf am 5 o'r gloch y bore! 3 awr o siwrne yn y bws i Dwfr a chroesi'r sianel i wynebu 3 awr arall cyn cyrraedd Paris yn ddiogel!

Roedd yn bump o'r gloch y prynhawn, a phob un ohonom yn llwgu. Ar ôl y bwyd, aeth rhai o'r plant i nofio yn y pwll, ac aeth rhai i chwarae snwcer cyn mynd i gysgu !

Deffro am 8:30 ac i lawr am frecwast am 9:00. Ac yna allan â ni i ganol Paris - am ddiwrnod bendigedig! Rhoddodd hyn gyfle i ni ymarfer ein Ffrangeg gan siarad â phobl oedd yn gweithio ym Mharis. Aethom i fyny'r Tŵr Eiffel, roedd yr olygfa'n anhygoel! Teimlwn yn nerfus wrth fynd i fyny'r tŵr, ond ar ôl ychydig roedd popeth yn iawn. Yna gwelsom yr Eglwys Gatholig Notre Dame sydd yn edrych yn eithaf bach o'r tu allan, ond yn enfawr y tu mewn. Roedd yna lawer o bobl yn tynnu lluniau gyda'u teuluoedd a theimlais fod yna ormod o bobl ar y sgwâr yma! Yna am damaid o ginio mewn bwyty Eidaleg. Ar ôl cael cinio, cerddom i lawr y Champs Elysees, ymweld â nifer o amgueddfeydd gwahanol cyn cyrraedd yr Arc De Triomphe! Roedd coesau a thraed pawb yn brifo erbyn hyn. Felly yn ôl i'r gwesty am swper!

Y noson honno nôl â ni i ganol Paris eto am drip hyfryd lawr y Seine. Roedd y cwch yn mynd â ni o un ochr Paris i'r llall. Gwelsom y Twr Eiffel wedi ei oleuo, bendigedig! Y bore trannoeth roedd pawb yn gynhyrfus iawn, am ein bod yn mynd am antur i barc Asterix! Roedd hyn yn wych! Digonedd o reidiau cyffrous a digon o fwyd hefyd!

Yna yn ôl i'r porthladd ac roedd hanner y bws yn cysgu'n drwm ac eraill dal yn effro. Roedd hi'n siwrne hir yn ôl i Gaerdydd, ond o'r diwedd ar ôl cyrraedd roedd ein rhieni yn aros amdanom, am 5:00 y bore!!!

**TAITH ADRAN GERDDORIAETH GLANTAF**
**GORFFENNAF 7 -12fed, 2004**
**MALTA AC YNYS GOZO**

Mae'n arferiad erbyn hyn i'r adran gerddoriaeth drefnu taith bob dwy flynedd er mwyn ehangu profiadau ein cerddorion dawnus ni yma yn yr ysgol, gan roi cyfle iddynt berfformio mewn lleoliadau gwahanol a gwledydd amrywiol eu traddodiadau cerddorol. Eleni, Malta oedd y dewis le, a dyma beth oedd taith ardderchog, fythgofiadwy i 50 o ddisgyblion o fl.10-13 - cwmnïaeth benigamp, cyngherddau gwefreiddiol - ffurfiol, ac anffurfiol, a digon o hwyl wrth gymdeithasu a pherfformio gyda'n gilydd fel un teulu mawr.

Roedd y bws yn gadael yr ysgol yn gynnar iawn fore Mercher y 7fed o Orffennaf er mwyn dal yr awyren yn brydlon o faes awyr Gatwick, ac mi roedd y staff yn falch bod pawb wedi cofio dod â phasport!!! Cyrraedd Malta wedyn yn y pnawn a theimlo'r gwres yn syth wrth gerdded allan o'r awyren!! Roedd *scorcher* ar y ffordd!

Yr hyn sydd yn aros yn y cof fwyaf o edrych yn ôl ar daith hynod lwyddiannus ymhob agwedd, oedd y cyd-weithio penigamp oedd rhwng y staff a'r disgyblion, y chwerthin parhaus a'r rhannu profiadau. Roedd yna amser i ymlacio ar y traethau bendigedig, amser i nofio yn y pwll, amser i siopa yn y gwahanol farchnadoedd, amser i fynd ar fordeithiau, amser i fynd o amgylch temlau ac ogofâu, ac wrth gwrs, amser i gynnal tri chyngerdd ARDDERCHOG, ond dim digon o amser i gysgu!!

Un o uchafbwyntiau'r daith oedd y cyngherddau - dau ohonynt allan yn yr awyr agored ym 'Mae St. Paul', a 'Pembroke' sydd gyda llaw wedi ei efeillio gyda'n Sir Benfro ni. Cafwyd cynulleidfaoedd niferus, a chyfle i werthu cryno ddisg yr ysgol. Roedd pawb yn mwynhau *repertoire* y band Jazz yma. Cynhaliwyd y gyngerdd olaf yn yr Eglwys Gadeiriol yn y Brifddinas Valetta. Dyna brofiad bythgofiadwy gyda'r côr ar ei gorau a'r organ a'r ensemblau chwyth a phres yn llenwi'r lle.

Cawsom brofiadau anhygoel a chwmnïaeth fendigedig yn ystod yr wythnos. Diolch i bawb.

'BLE NI'N MYND NESA?'! oedd y cwestiwn ar wefusau pawb wrth i'r bws ddychwelyd i Lantaf â'r disgyblion yn diolch o waelod calon i'r athrawon am drefnu taith mor llwyddiannus a chofiadwy.

Wel! Ymlaen at y nesaf felly!

Bu'r daith i Baris yn hynod o lwyddiannus, a hoffwn ddiolch i'r holl athrawon yn enwedig yr adran Ffrangeg am drefnu'r trip yma. Merci Madames Rowlands et Williams!

Dyfed Cynan Bl.9

**Staff newydd**

Yn sgil ymddeoliad rhai o'n staff y llynedd, braf yw croesawu sawl wyneb cyfarwydd i'n plith. Y mae Mrs Rhian Griffiths a Ms Awel Emlyn wedi ail ymuno â'r adran Saesneg; Mrs Non Hobday nawr yn gyfrifol am yr uned Anghenion Arbennig; a Mrs Debbie Price sydd yn ymuno â ni yn swyddfa'r ysgol. Croeso i chi gyd i Ysgol Glantaf.

**Y SIOE GERDD 'JIWDAS'**

Unwaith eto eleni byddwn yn perfformio sioe gerdd, a'r tro hwn perfformiad o 'Jiwdas' gan Emyr Edwards a Delwyn Siôn fydd yn mynd ag egni ein cast a'n hathrawon! Rydym wedi bod wrthi ers amser yn ymarfer a pharatoi i gyflwyno sioe wefreiddiol! Mi fydd yn cael ei pherfformio yn neuadd yr ysgol nos Fawrth y 16eg - nos Wener 19eg o Dachwedd. Mae'r tocynnau bellach ar werth yn swyddfa'r ysgol, felly ffoniwch 029 2033 3090 - maent yn gwerthu'n gloi!

## YSGOL GLANTAF

**Ymweliad â Borneo**
Faint o bobl all ddweud eu bod nhw wedi bwyta wiwer i frecwast?! Dim llawer dybiwn i... heblaw am 10 disgybl o Lantaf a aeth am fis o gwmpas Borneo yn Ne Ddwyrain Asia. Ar ôl codi arian drwy wneud nifer o ddigwyddiadau noddedig e.e. abseilio 100 troedfedd i lawr tŵr dychrynllyd o uchel Castell Penrhyn, Bangor, dechreuodd antur fwyaf ein bywydau.

Tra bod rhan fwyaf y grŵp yn ceisio dosbarthu'r *immodium* yn deg, roedd un aelod dienw yn gwledda ar *prunes* a *laxatives* i symud gwerth pythefnos o reis!! Ar wahân i'r salwch, bron â chael ein lladd gan King Cobra ac un aelod bron â cholli coes, roedd y daith yn hynod o lwyddiannus!

Dringom fynydd uchaf De Ddwyrain Asia, byw yn y jyngl gwyllt am bythefnos, cysgu mewn gwelyau crog (hamocs) a byw â theuluoedd llai ffodus na ni. Os nad oedd hynny'n ddigon, cawsom y cyfle i fyw ar ynys drofannol anghysbell am bedwar o ddiwrnodau, gyda dim ond mwncïod i gadw cwmni â ni a dwyn ein bwyd- "Robinson Cruisoe Style"!

Nid gwyliau i ymlacio yn unig oedd hi - treuliom o leiaf 12 o ddiwrnodau'n gwneud gwaith gwirfoddol tebyg i ddysgu Saesneg, plannu coed a gweithio mewn cartref i orangutans amddifad. Profiad bythgofiadwy sy'n dod ag atgofion melys i ni o hyd.
Diolch i Camre Cymru!

Nia Jones a Lucy Watkins Bl.13

**Fiona Cottnam**
Trist yw sôn ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd am farwolaeth un o'n disgyblion. Yn dawel ar yr ail o Fedi bu farw Fiona Cottnam, disgybl blwyddyn 11, ar ôl brwydr galed yn erbyn cancr. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Fiona wedi ymladd yn ddewr gan wynebu amryw o lawdriniaethau. Llwyddodd i barhau i gadw cysylltiad agos â'r ysgol, bu'n ymweld â'i ffrindiau a llwyddodd i fynychu taith ddiwedd y flwyddyn i Drayton Manor ym mis Gorffennaf. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf at ei theulu, ei rhieni a'i chwaer Laura, ac nid anghofiwn Fiona, ein ffrind annwyl.

## Swyddi Newydd

**BT yn Penodi**
Cyn fyfyriwr ym Mhrifysgol Morgannwg sef Alun Thomas gafodd ei benodi gan BT i fod yn swyddog cyntaf y cwmni fel rheolwr polisi a strategaeth yr iaith Gymraeg. Llongyfarchiadau iddo.

**Aelodau Newydd Awdurdod S4C**
Penodwyd Winston Roddick, cyn Gwnsel Cyffredinol y Cynulliad Cenedlaethol, a John Walter Jones, cyn Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith yn aelodau o Awdurdod S4C. Cafodd y ddau eu hurddo yn yr Orsedd yn Eisteddfod Casnewydd.

**www.dinesydd.com**

**Cyfle i chi ddarllen ôl-rifynnau o'r *Dinesydd***

## MARWOLAETHAU

**Marw Ymhell**
Cydymdeimlir â Cynthia Ivorian-Jones (gynt Davies) a'r teulu ar farwolaeth annhymig ei gŵr mewn damwain car ar y 28 Gorffennaf ar ynys Carriacou yn y Carabi. Brodor o Amlwch oedd Owain Gareth Gruffudd Ivorian-Jones ac am ddeng mlynedd ar hugain bu'n gyfreithiwr i'r International Finance Corporation yn bennaf yn Washington a hefyd yn Zimbabwe a De Affrig. Mae Cynthia ei weddw yn ferch i Edgar Davies, Heol y Bryn, Rhiwbina.

**Cyn Brifathro Ysgol Gynradd Grangetown yn Marw**
Cydymdeimlir â Dilys Jones a'r teulu yr Eglwys Newydd ar farwolaeth ei gŵr, Garfiled Jones yn Holme Towers, Penarth ar yr 28 Awst. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar yr 8 Medi.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Joan Davies a'i theulu yn y Barri ar golli ei gŵr James Rowland Davies yn Ysbyty Llandochau ar 19 Awst. Bu'r angladd yng Nghapel y Tabernacl y Barri ar y 27 Awst ac yn dilyn yn Amlosgfa Glantaf.

**Marw tad yr actores Anghard Rees**
Yn 89 oed bu farw yr Athro Linford Rees gynt o Bort Tywyn. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llanelli cyn astudio yn Ysgol Feddygol Caerdydd. Bu'n gweithio yn Ysbyty St Bartholomew yn Llundain ac yn arbenigwr ym maes seiciatreg. Cafodd ei urddo i'r Orsedd a bu'n gefnogwr brwd i Glwb Rygbi Cymry Llundain. Am gyfnod buodd o a'i deulu yn byw yn Rhiwbina cyn dychwelyd i Lundain.

**Ogam Igam**

**Siop esgidiau plant**
**yn Windsor Arcade, Penarth**

Esgidiau o'r DU a'r cyfandir, yn cynnwys
Start-rite, ECCO, Ricosta, Inch blue,
Giesswein, Buckle-My-Shoe, Primigi...

**Dewis da o esgidiau ysgol, oed iau i'r arddegau**
**Llawer math a steil arall o esgid**
**Staff wedi'u hyfforddi; gellir trefnu apwyntiad**

Ar agor Llun–Sad 10 i 5.30 Ffon 029 2070 4254 www.ogam-igam.com

# PENWYTHNOS PRESWYL MERCHED Y WAWR

Yng nghanol niwl a glaw y dechreuodd ein penwythnos wrth i ni adael am Llanbed, ddydd Gwener yr 17eg o Fedi. Erbyn i ni gyrraedd roedd yr haul yn tywynnu ac wedi i ni roi'n dillad, curlers, powdwr a phaent yn ein hystafelloedd yn y Coleg, roedd gennym ychydig o amser i fynd i B.Js. - ac roedd sêl yno!

Roedd y bwyd yn fendigedig. Dyma syniad i chi o'r fwydlen – cawl llysiau a bara'r cynhaeaf, cyw iâr mewn saws gwin, tatws rhost a llysiau tymhorol, triawd o broffiterols gyda saws siocled a mefus a dim eisiau golchi llestri chwaith! Ar ôl swper aethom i'r neuadd a chael ein croesawu'n swyddogol gan ein Llywydd Cenedlaethol, Glenys Thomas. Wedyn Noson Lawen yng nghwmni pobl ifanc Côr Cardi-Gân – talentau di-ri a digon o hwyl a chwerthin!

Bore Sadwrn – pawb yn gynnar i frecwast. Pedair oeddem ni o Gangen Bro Radyr ond roedd 421 o ferched yno i'w bwydo ar wahân i ni! Yna mynd i wrando ar Nia Lewis o Aberystwyth yn sôn am y busnes llwyddiannus a sefydlodd yn gwneud sebonau a hufenau i'r corff. Pwy sy'n dweud nad ydyn ni ferched Cymru yn fodlon mentro! Mae'n allforio ei chynnyrch dros y byd. Mae pob cynhwysyn yn naturiol ac maent yn edrych ac yn ogleuo yn anfarwol. Roedd yn gwerthu hufen a'i ddisgrifio fel *polyfilla* i'r wyneb. Gwerthwyd peth wmbreth ohono y bore hwnnw!

Roeddem mewn hwyliau da ar ôl hyn i wrando ar Hywel Teifi a dywedodd wrthym ei fod yn cael ei ben blwydd yn 70 cyn bo hir a'i fod mewn cariad â phawb o Ferched y Wawr! Mwy o sebon! Mae'n debyg mai ef yw'r unig siaradwr sydd wedi cael ei wahodd i'n hannerch am yr eildro.

A chyn cinio fe gyflwynodd Llinos Roberts, aelod o'r gogledd, grair i Elin Jones, A.C. i ddathlu 600 mlwyddiant Senedd i Gymru. Dywedodd Elin Jones y byddai'n cael lle teilwng yn adeilad y Cynulliad.

Cawsom ymweliad ag Eglwys y carcharorion rhyfel yn Henllan yn y pnawn. Roedd yn syndod sut roeddynt wedi creu lle o addoliad o ddim byd bron - darnau o ffelt to a choncrid - a bod yr adeilad yn dal i sefyll hyd heddiw. Wedyn i Gastell Newydd Emlyn ac Edida J i sbïo yn unig, wrth gwrs!

Ar ôl swper i'r neuadd â ni i wrando ar John ac Alun a'r band a dwi'n meddwl fy mod mewn cariad â'r ddau ohonynt a'r band hefyd!! Mwynhad pur. Gwrando ar Jac y Do wedyn a Dai Jones yn cyflwyno rhwng ei jôcs.

Trefnwyd gwasanaeth bore Sul gan Gangen Caerfyrddin a'r thema oedd Ysbrydoliaeth. Wedyn cawsom wledd gan Ysgol Berfformio Dyffryn Tywi. Roedd y perfformiad yma yn hollol wefreiddiol.

Paned wedyn, ac i goroni'r cyfan buom yn gwrando ar Catrin Finch a'i thelyn.

Wedi'r cinio Dydd Sul yn ôl â ni i'r ddinas fawr ddrwg. Bydd y penwythnos preswyl yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf a bydd yr ymwelwyr yn aros yn hosteli Plas Gwyn dros y ffordd i'r BBC.

Tan tro nesa – Mair

Llongyfarchiadau i Ian Wyn Morris a Gwenno Meleri Siencyn ar eu priodas ym Mhorth Tywyn ar 11 Medi. Mae Ian yn Syrfewr a Gwenno yn gweithio ym Mwrdd yr Iaith ac yn aelodau ffyddlon o Gôrdydd.

**Ar gael :**
**Hyfforddwraig/Tiwtor ar gyfer Astudiaethau'r Cyfryngau (TGAU a Lefel A) a Drama (TGAU a Lefel A)**
**£20 yr awr.**
**Cysylltwch â 01443 663622**

# Côrdydd yn Aberystwyth

Ar nos Sadwrn, 18 Medi roedd Côrdydd yn canu o flaen cynulleidfa o fil o bobl yn Neuadd Fawr Aberystwyth mewn cyngerdd i godi arian at yr elusen leol, Ffagl Gobaith.

Ynghyd â noddwr yr elusen a chyn-delynores Tywysog Cymru, Catrin Finch, y clarinetydd talentog ifanc lleol Rhys Taylor a Chôr Plant Aberystwyth, perfformiodd Côrdydd ddau set amrywiol iawn gan gynnwys y darnau a gipiodd y wobr gyntaf i'r cor yn y Gystadleuaeth i Gorau Cymysg o dan 45 o leisiau yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd.

Finale'r noson oedd Côrdydd yn canu Hafan Gobaith gyda chyfeiliant Lowri Evans ar y piano, Catrin Finch ar y delyn a Rhys Taylor ar y clarinet.

# Te Mefus – Sefydliad Prydeinig y Galon

Ar brynhawn Sadwrn heulog braf, cynhaliwyd Te Mefus yng ngardd Wyn a Kate Innes yng Nghreigiau. Trefnwyd y prynhawn llwyddiannus hwn gan Anne Innes, aelod o bwyllgor Sefydliad Prydeinig y Galon, Cangen Caerdydd, ac mae Anne am ddiolch o galon i'w ffrindiau a'i theulu am eu help yn ystod y dydd, ac am y cacennau ar gyfer y stondin. Rhoddwyd y bwyd a'r anrhegion ar gyfer y raffl fel rhoddion gan siopau'r ddinas, a gwerthfawrogwn yn fawr iawn eu haelioni. Diolch hefyd i Mrs. Eirian Evans am ei datganiad ar y delyn. Gwnaed elw o £820, a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio tuag at waith ymchwil, addysg a gofal cleifion.

Mae'r gyngerdd flynyddol ar gyfer 2005 wedi ei threfnu yn barod, pryd bydd Côr Meibion Llanelli a Iona Jones (soprano) yn cymryd rhan. Y dyddiad i'w gofio – Nos Sadwrn, Chwefror 12 am 7.00 o'r gloch yn Ysbyty'r Brifysgol. Mae Sefydliad Prydeinig y Galon yn croesawu gwirfoddolwyr i helpu gyda gwaith yr elusen. Os hoffech fwy o fanylion ffoniwch Mrs. Glenda Meakin ar (029) 20890148 neu Swyddfa'r Sefydliad (029) 2038236.

# Côr Plant Caerdydd

Sefydlwyd y côr hwn gan Sandra Semmens a finne ym 1995 ac ers hynny mae 150 o blant wedi bod yn aelodau, i gyd rhwng 10 a 15 oed. Gan fod ein cyfnod ni yn dod i ben gyda'r perfformiad olaf yng ngwasanaeth Nadolig Tŷ Hafan yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar yr 2il o Ragfyr, penderfynwyd cynnal aduniad ym Miskin Manor ar ddechrau'r tymor hwn. Gwahoddwyd yr holl gyn-aelodau a'r aelodau presennol i ddathlu'r cymdeithasu a'r mwynhad a gafwyd o ganu yn ystod y naw mlynedd ddiwethaf.

Braf oedd gweld yr holl bobl ifanc hyn (120 ohonynt yn bresennol), yn ymgasglu mewn grwpiau o gwmpas y casgliad lluniau a phosteri cyngherddau a oedd wedi eu harddangos yng Ngwesty Miskin. Bu hefyd llawer o hel atgofion am ddrygioni (diniwed!) a throeon trwstan mewn capeli ac ar deithiau bws i gyngherddau yma a thraw yng Nghymru yn ogystal ag i Fryste, Rhydychen, Llundain, penwythnos yn Ogwr a'r daith fythgofiadwy honno i'r Almaen wrth gwrs. Codwyd arian da tuag at elusennau.

Prif nod y côr o'r dechrau oedd rhoi'r un cyfle i blant ag a gafodd Sandra a finne pan yn ifanc ac fel oedolion, i fwynhau ac i berfformio cerddoriaeth o bob math gan gynnwys caneuon gwerin, caneuon ysgafn, clasurol, *blues* a cherdd dant. Gobeithio eu bod wedi dysgu darnau a fydd yn eu cof am byth.

Hoffwn ddiolch i'r holl rieni a ffrindiau a fu'n cynorthwyo dros y blynyddoedd ac yn arbennig Sandra Semmens a fu'n cyfeilio ac yn rhannu'r gwaith trefnu. Diolch hefyd i Carys Williams am ei harbenigedd a'i chymorth gyda'r cerdd dant. Diolch i benaethiaid Glantaf, Huw a Rhiannon, am adael i ni ymarfer yno yn wythnosol.

Mae'r cyfnod wedi bod yn un gwerthfawr i mi a byddaf yn edrych yn ôl ag atgofion melys iawn.

Gobeithio bydd y côr yn parhau gydag arweinydd a chyfeilydd newydd. Does neb wedi cysylltu â mi hyd yn hyn ond rwy'n hyderus y daw rhywun sy'n teimlo'n ddigon cryf bod lle i gôr plant yng Nghaerdydd. Byddant yn eu tro yn medru bwydo'r corau ieuenctid gwych sydd gennym.

Codwch y ffôn!:.....20611994

Mair Robins

**Rhai o aelodau presennol Côr Plant Caerdydd**

**Cyn aelodau o'r côr yn hel atgofion yng ngwesty'r Miskin Manor**

# Busnes Blasus *Bant à la Cart*

Tipyn o fenter oedd gadael swydd yn Ysgol Gyfun Penweddig i ddechrau busnes arlwyo yng Nghaerdydd, sy'n prysur ehangu. Elin yw perchennog *Bant à la Cart*, ac mae ei phartner hefyd yn rhoi'r gorau i'w swydd i helpu gyda'r busnes, mor llwyddiannus ydyw. Mae erioed wedi cael blas ar goginio ac mae'r bwyd y mae'n ei greu yn gwbl anhygoel, yn ôl nifer o ddarllenwyr *Y Dinesydd*.

Mae *Bant à la Cart* yn darparu pob math o fwydydd â'r cynhwysion i gyd yn ffres ac yn lleol. "Dim ond y cynnyrch gorau yr ydym yn eu defnyddio, ac mae'r holl gynhwysion yn gwbl ffres" meddai Elin. "Rydym yn darparu gwasanaeth arlwyo i gwmnïau teledu tra'n ffilmio. Rydym hefyd wedi gwneud i briodas, felly rydym yn medru paratoi bwydydd unigryw ar gyfer pob math o achlysur." Maen nhw'n medru darparu ciniawau llawn, byr-brydiau, brechdanau, brecwastau, pwdinau di-ri - yn ôl y gofyn a'r galw. Gallant ddarparu ar gyfer hyd at 300-400 o bobl.

Mae Elin yn gweithio o'i lorri symudol sy'n cynnwys cegin â'r holl *mod cons*, sy'n caniatáu iddi weithio ym mhob rhan o'r wlad yn ôl y galw.

Dyma fenter Gymraeg newydd a chyffrous sy'n werth ei chefnogi. Cofiwch, os ydych chi'n trefnu bedydd, priodas neu achlysur arbennig, gall Elin ddarparu ar eich cyfer. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:bantalacart@btopenworld.com, neu ffoniwch 0777 3893792.

# Apêl Gwilym yn "Y Dinesydd"

Mae cronfa'r apêl (Medi 03) ddal ar agor. Yr wyf o'r diwedd wedi cael amser i ddiweddaru'r rhestr ers yr adroddiad diwethaf yn rhifyn Tachwedd / Rhagfyr 2003. Ymddiheuriadau i'r rhai ohonoch sydd wedi cyfrannu am yr oedi. Erbyn hyn yr ydym wedi derbyn £355 ymhellach gan unigolion. Diolch o galon i'r canlynol am eu cefnogaeth i bapur bro hynaf Cymru:

**Cyfraniadau gan Unigolion**

Dr Elin M Jones. Nans Jones. Gwynne a Margaret Evans. Maurin Hurley. Rhoswen Deiniol. D Arfon Williams.Ray Sunderland. Mair Robins. Dr Wil Evans. M Owen. G W Griffith. Hywel Morris. M Lake. Yr Athro Emeritws Meic Stephens. D G Jones. Lisabeth Miles. G D Rowlands

Cafwyd cefnogaeth ychwanegol hefyd gan y cyrff canlynol a diolch iddynt hwythau hefyd am gofio am ein cronfa. Mae angen cydnabod yn arbennig y mudiadau hynny sydd yn cyfrannu'n flynyddol i'r apêl. Daeth £717 i law ganddynt hwy:

**Cyfraniadau gan Fudiadau / Cyrff**

Eglwys Annibynnol Minny Street, Caerdydd.
Eglwys Annibynnol Ebeneser, Caerdydd
Eglwys y Crwys, Caerdydd
Eglwys Salem, Canton, Caerdydd
Cwmni Dawns Werin Caerdydd
Staff Ysgol Iolo Morgannwg, Y Bontfaen
Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch
Capel Bethel, Maes y Deri, Rhiwbeina
Eglwys Undodaidd West Grove
Cylch Cinio Merched Caerdydd
Cymdeithas Capel Minny Street, Caerdydd
Cylch Llyfryddol Caerdydd
Merched y Wawr Caerdydd
Merched y Wawr Bro Radur
Gymanfa Ganu Caerdydd (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina
Cymdeithas Cymrodorion Y Barri

Ac i'r gweddill ohonoch, cofiwch ei bod hi byth yn rhy hwyr i gyfrannu naill ai fel unigolyn neu fel mudiad. Danfonwch eich cyfraniadau tuag ataf. Gweler fy nghyfeiriad ar dudalen dau. Diolch yn fawr, Ceri Morgan, Trysorydd.

## Newyddion o'r Eglwysi

# Tabernacl Caerdydd

**Gwaith newydd**
Dymunwn yn dda i dri aelod sydd wedi derbyn gwahoddiadau i gyfrifoldebau newydd. Bydd Ann Beynon yn gweithredu fel Cyfarwyddwr gyda BT yng Nghymru, Geran Hughes yn symud i weithio yn Nyffryn Clwyd i ddatblygu ei yrfa fel athro a mentor i'r disgyblion sydd yn derbyn her Cynllun Dug Caeredin a Timothy Richards yn dychwelyd i ganu yn yr Almaen.

Wrth i Rhodri Williams ymryddhau o'i gyfrifoldebau fel cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, cydnabyddwn yn ddiolchgar ei gyfraniad a'i arweinyddiaeth gadarn i'r Bwrdd.

**Gradd meistr**
Llongyfarchiadau i Hywel Rogers ar dderbyn MSc mewn Meddygaeth Niwclear. Bellach mae'n darlithio yn Ysbyty'r Brifysgol yn yr Adran Radiograffeg.

**Yr Eisteddfod Genedlaethol**
Diolch i Eleri Gwyndaf am drefnu nifer o'r Tabernacl ar y Sadwrn olaf wrth estyn croeso i babell IG, sef pabell yr Eglwysi Ynghyd. Diolch hefyd i Rhys a Rhodri ab Owen am arwain egwyl o addoliad ar y bore hwnnw. Ar y llwyfan gwelwyd nifer o aelodau a chyfeillion yr eglwys mewn corau a phartïon canu. Cafodd Côr Caerdydd, Côr CF1 a'r Côr Hamdden. Eisteddfod i'w chofio. Roedd rhai o'n plith yn canu gyda Chôr yr Eisteddfod a bu eraill ynghlwm â chyflwyniadau a dramâu. Daeth Mair Roberts i'r brig wrth ganu'r ffliwt ac enillwyd cyfansoddi emyn dôn gan un o gyfeillion newydd oedfa'r bore sef Ian Thomas.

**Priodasau Aur**
Yn ddiweddar bu tri phâr priod yn dathlu'r garreg filltir bwysig hon, ac wrth eu llongyfarch, dymunwn iddynt bob dedwyddwch i'r dyfodol. Rhannwn lawenydd Margaret a Mostyn Jones, Marion ac Arfon Williams ac Alwyn a Mary Williams.

**Academia**
Mae nifer o blant teuluoedd yr eglwys yn deilwng o'n cyfarchion, boed yn lefel 'A', 'AS' a TGAU. Mae pob cam ar y daith yn bwysig wrth ddatblygu doniau. Dymunwn yn dda i Dylan Roberts wrth iddo gychwyn ar ei gwrs Newyddiaduraeth a Saesneg ym Mhrifysgol Caerhirfryn a John Derrick Rees wrth gychwyn ar ei gyfnod yn Aberystwyth.

**Ail- ddechrau'r Ysgol Sul**
Fel rhan o'r ddarpariaeth trefnodd criw y bobl ifanc farbeciw yng nghefn y capel o dan arweiniad Rob Nicholls.

Eleni bydd yr ysgol Sul o dan oruchwyliaeth Eira Milton Jones a Marc Jon Williams - dau a fydd yn cydweithredu fel arolygwyr. Diolchwn i Myfi Cosslett am drefnu llawer ar waith gyda'r ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf.

# Salem, Treganna

**Bedydd**
Bedyddiwyd Caradog, mab Mona a Bleddyn ar y 26ain o Fedi. Cafwyd oedfa hyfryd a bywiog, ac rydym yn dymuno'n dda iddynt fel teulu.

**Aelodau newydd**
Rydym wedi derbyn dau aelod newydd i Salem yn ddiweddar, sef Dai Morgan a Lisa Nash.

**Picnic yn y Parc**
Cawsom bicnic ar gaeau Pontcanna ddydd Sul y 19eg o Fedi. Yn ffodus, llwyddodd y cymylau i aros draw, ac er ei bod yn dechrau oeri, roedd yn brynhawn hwyliog tu hwnt. Cawsom gyfle i gymdeithasu a rhannu picnic ein gilydd (picnic mae rhywun arall wedi ei baratoi o hyd yn blasu'n well!), ac fe fwynhaodd y plant yn fawr wrth gael gwared â digonedd o egni! Roedd yn llwyddiant mawr ac yn sicr byddwn yn awyddus i wneud yr un peth y flwyddyn nesaf, gobeithio!

**CIS**
Cyfarfu CIS yn y Bengal Brasserie yn Nhreganna yn ystod mis Medi, ac fe luniwyd rhaglen eithaf bras ar gyfer y flwyddyn.

**Y Gadwyn**
Cafwyd noson hyfryd ar y 23ain o Fedi wrth i ni fwynhau rhaglen arbennig yn seiliedig ar y diwygiad ganrif yn ôl, o dan arweiniad Haydn.

**Cinio Criced**
Cafwyd gwledd i orffen y tymor yn Morolas yn Grangetown i gloi'r tymor. Gwledd o fwyd, yn dilyn gwledd o griced a gafwyd yn ystod y tymor!

**Clwb Llyfrau**
Cyfarfu'r Clwb Llyfrau yn ystod Medi wrth i ni drafod *The Secret Life of Bees*. Roedd pawb wedi cael blas ar y gyfrol ac roedd yn braf cael cyfle i rannu barn a syniadau.

# Eglwys y Crwys

Ddiwedd y mis caiff aelodau'r Gymdeithas Ddiwylliannol gyfle i wrando ar Iestyn Shapey yn olrhain hanes ei ymweliad diweddar â Zambia. Un o blant yr Eglwys yw Iestyn ac mae ar hyn o bryd yn dilyn cwrs mewn meddygaeth yn Birmingham. Swyddogion y Gymdeithas am y flwyddyn gyfredol yw Alun Tobias Cadeirydd, yn cael ei gynorthwyo fel Is-Gadeirydd gan Geraint Williams. Yr ysgrifenyddes yw Nia Peris a cheidwad y drysorfa yw Geraint John. Dymunwn yn dda iddynt gyda'r gwaith.

Bydd Cylch y Chwiorydd a'r froderfa yn cychwyn eu tymor brynhawn Dydd Mercher Hydref y 6ed gyda chyfarfod defosiynol yn cael ei arwain gan ein Gweinidog. Ganol y mis bydd rhyw ddeugain o aelodau y Crwys a ffrindiau yn teithio gyda chwmni'r Seren Arian i Swydd Lincoln a Northumbria, bydd y daith yn cynnwys ymweliadau â wal Hadrian, Newcastle Upon Tyne, Durham a Berwick Upon Tweed.

Caiff aelodau yr Eglwys ac eraill gyfle i weld perfformio 'Yr Arglwydd' gan gwmni drama Bro'r Eisteddfod yn Theatr y Crwys nos Wener a nos Sadwrn y cyntaf a'r ail o Hydref. Cyfieithiad George Owen o'r ddrama Saesneg *Nil by Mouth* gan John Chapman yw hon, ac fe'i llwyfennir gyda chaniatâd adran ddrama ein Gŵyl Genedlaethol.

Bydd rhifyn mis Hydref o'r *Gadwyn*, cylchgrawn a phapur newyddion Eglwys y Crwys yn torri tir cymharol newydd pan ddaw rhifyn Mis Hydref o'r wasg. Y tro hwn bydd ei gynnwys wedi ei neilltuo i gyfraniadau yn ymdrin â'r diwygiad mawr ganrif yn ôl. Golygydd y Gadwyn ers blynyddoedd bellach yw'r Athro John Gwynfor Jones ac ef fydd yn llywio'r cyfraniadau a fydd yn coffau a dehongli y bendithion ysbrydol a chwythodd drwy Gymru ein cyndadau ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

# Minny Street, Caerdydd

Croesawn **Alwyn Viggo Owen** i'n plith – mab cyntaf i Dewi a Nuria. Ganwyd Alwyn ar Awst yr 21ain, a dymunwn yn dda iddo ef a'i rieni.

Roedd oedfa Gymun Foreol Sul cyntaf mis Medi yn oedfa arbennig iawn. Cawsom dystio i fedyddiadau a derbyn rhai o ieuenctid yr Eglwys yn gyflawn aelodau. Ar ddechrau'r oedfa bedyddiwyd dau frawd bach, **Oliver Gilbert** a **Samuel Benjamin Kinnaird** (meibion Sybil a Tim ac wyrion Ben a Sara Barr, Rhiwbeina) a dymunwn yn dda i'r teulu a hwythau bellach wedi dychwelyd i Gaerdydd yn dilyn cyfnod yn Maryland. Hyfrydwch hefyd oedd tystio i fedydd **Angharad Mair Maxwell** gan ei thad-cu, y Parchg Noel Evans, cyn bod Angharad ynghyd â thair arall o'i chyfoedion yn cael eu derbyn yn gyflawn aelodau gan ein Gweinidog, y Parchg Owain Llyr Evans. Croesawn yn gynnes iawn **Angharad, Catrin Evans, Lowri Morgan** a **Rhiannon Wilkins** a dymunwn yn dda i'r pedair yn eu gwahanol feysydd yn y dyfodol.

Wythnos yn ddiweddarach, cawsom y fraint o dystio i fedydd **Mali Ellis Griffiths** (merch Lowri a Jonathan) a dymunwn yn dda iddi hithau a'r teulu.

Cynhaliwyd ein Gŵyl Bregethu Flynyddol ddydd Sul, Medi 19 a ninnau'n cychwyn ar ein hymdrech elusennol tuag at Apêl 2004-2005. Byddwn yn canolbwyntio ar waith Cymdeithas y Beibl dros y misoedd nesaf ac wrth i Peter a Gill Griffiths agor eu cartref i aelodau gael mwynhau cymdeithas a phicnic wedi'r oedfa foreol rhoddwyd cychwyn ar y casglu arian! Cafwyd oedfaon bendithiol dan arweiniad y Parchg Guto Prys ap Gwynfor o Landysul dros y Sul a hyfrydwch oedd cael cwmni nifer o gyfeillion o eglwysi Cymraeg y cylch yn yr oedfa hwyrol (gyda'r casgliad rhydd yn hwb ychwanegol i gychwyn yr apêl).

Dymunwn yn dda i **Eiluned Davies** a **Geoffrey Richard-John** yn dilyn eu priodas ym Minny Street ddydd Sadwrn, Medi 24.

Cofiwch fod yna groeso cynnes iawn i unrhyw un ymuno â ni ar y Sul ac yng nghyfarfodydd yr wythnos ac os am wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd a phryd, gallwch gysylltu â'r Gweinidog, Owain Llyr Evans (2019 3828) neu'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Bethan Jones (2022 3657).

# Ebeneser, Caerdydd



**Tomos Dafydd, Elin Kate Evans, Llinos a Nia Williams gyda Malcolm Thomas a'r Parch Alun Tudur**

**Er budd yr achos**
Bore heulog braf oedd hi ar fore Iau Mai 27ain pryd y cynhaliwyd *bore coffi* er budd yr achos. Llwyddwyd i godi £128. Diolch i Mair ac Idwal am agor eu cartref fel hyn. O *Dan yr Ordd* oedd teitl Ocsiwn Mawr Ebeneser ar nos Iau 1af Gorffennaf. Bu paratoi dygn wrth ddwyn catalog amrywiol at ei gilydd. Cynhwysai'r catalog amrywiaeth rhyfeddol o len cawod i wyliau yn y Mwmbwls, cerddi, caneuon, llofnodion, lluniau gwreiddiol, pwyth waith, tocynnau, crochenwaith, blodau a gwersi. Daeth criw da ynghŷd â'u waledi'n llawn a chodwyd cyfanswm o £2,400 o dan forthwyl medrus Idwal Hughes. Diolch o waelod calon i bawb o'r aelodau a chyfeillion a gynorthwyodd. Yn ystod *Ffair Haf Rhiwbeina* ddydd Sadwrn 3ydd Gorffennaf yr oedd stondin gan y Chwiorydd yn gwerthu pob math o bethau. Diolch i bawb fu'n rhan o'r fenter.

**Y Digartref**
Bydd y cwrs Alffa i'r digartref yn cychwyn yn Ebeneser bob prynhawn Mercher ym mis Hydref.

**British Baptist Assembly**
Daeth dros ddwy fil o gynrychiolwyr o wledydd Prydain i Gaerdydd ddiwedd mis Ebrill ar gyfer y British Baptist Assembly. Cynhaliwyd y prif oedfaon a chynadleddau yn y CIA ond benthycwyd capel Ebeneser ar gyfer rhai o'r seminarau. Ar fore dydd Sul 2 Mai darlledwyd oedfa o fawl o Ebeneser ar BBC Radio 4 o dan arweiniad y Parch. Dr Alistair Brown. Pregethwyd gan y Parch. David Coffey.

**Hwyl Hwyr**
Y mae Clwb Hwyl Hwyr wedi ail gychwyn i blant cynradd blwyddyn 1-6 bob nos Iau yn Ysgol Plasmawr. Clwb Cristnogol Cymraeg cyffrous ydyw sy'n cyflwyno'r ffydd i'n plant. Am fanylion pellach ffoniwch 20490582.

**Cwrdd Ieuenctid**
Cynhaliwyd Cwrdd Ieuenctid arbennig fore dydd Sul 19eg Medi. Agor ein llygaid oedd thema'r oedfa a chymerwyd rhan gan Ioan Evans, Jeni Mared Thomas, Tecwyn Dafydd, Siân Manning, Lisa Mair Williams, Dafydd Evans a Nia Morgan. Yn ystod y cwrdd cyflwynwyd copïau o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig gan ein Ysgrifennydd Mr Malcolm Thomas i gynrychiolaeth o'r 12 o bobl ifanc a dderbyniwyd yn gyflawn aelodau yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf sef Tomos Dafydd ac Elin Kate Evans.

**Trip Ysgol Sul**
Aeth criw o deuluoedd Ebeneser i bwll nofio'r Lido Afan ddydd Sadwrn 18ed Medi. Cafwyd hwyl anghyffredin ar y llithrennau anferthol a bwyd blasus ar y ffordd gartref yn yr Harvester, Pen-y-bont ar Ogwr.

## Newyddion o'r Eglwysi

# BETHEL RHIWBEINA

Aelodau Bethel fu'n gyfrifol am baratoi'r lluniaeth ym mhabell yr eglwysi ar ddydd Mawrth yr Eisteddfod yng Nghasnewydd. Cyfrannwyd pedwar cant o bice-ar-y-maen a sawl pecyn o fisgedi ac mi aeth y cyfan yn fuan iawn. Diolch i Mr Eifion Hopwood am ofalu am oedfa'r bore yn y babell ac i Mr R. Emrys Jones am yr holl drefniadau.

Cwblhawyd y gwaith o addasu rhannau o'r capel a'r neuadd i gyd-fynd â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ddaeth i rym y mis hwn.

Croesawyd pedwar aelod newydd gan y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan, sef Miss Margaret Turner, Mrs Monita Jones a Mary a Gareth Thomas.

Cafodd Lewis Celt Davies ei fedyddio gan y Gweinidog. Mae Lewis yn fab i Hafina Davies ac yn ŵyr i Nerys a Tom Smith, Rhiwbeina.

Llongyfarchiadau i Gwenllian Elfyn, Aled Hill a Gareth Jones ar eu llwyddiant yn yr arholiadau lefel 'A'.

Y Saith Pechod Marwol yw testun sgyrsiau'r Gweinidog ar foreau Mawrth (10.30). Mae croeso cynnes i bawb.

**Yn priodi cyn bo hir?**
Wedi trefnu'r adloniant?
Naddo?

Felly,
**Gwasanaethau 007**
amdani !

DISGO DWYIEITHOG
ASIANT TWMPATH
SUSTEM SAIN I AREITHIAU
RIG GOLEUO I GRWPIAU BYW

Cysylltwch â Ceri ar
07774 816209 neu
029 20621634
ceri33@btopenworld.com
Ar gael dros Gymru benbaladr
a thu hwnt

www.mentercaerdydd.org
029 20565658

**Clwb Pêl-rwyd i Fenywod**
Mae'n fwriad cychwyn Clwb Pêl-rwyd yn ysod y mis nesaf. Os oes gan unrhywun ddiddordeb, cysylltwch ag Angharad:
angharad@mentercaerdydd.org

**Cynlluniau Chwarae Hanner Tymor yr Hydref**
Fe fydd Cynlluniau Chwarae'r Fenter yn cael eu cynnal yn Ysgol Treganna ac yn Ysgol y Berllan Deg dros wyliau hanner tymor – Hydref y 25ain-Hydref y 29ain. Mae'n debygol y bydd y cyrsiau'n llenwi'n gyflym, felly'r cyntaf i'r felin…

**Cwis i Ddysgwyr yng nghwmni Ieuan Rhys a Phyl Harries**
Mae'r Fenter yn cynnal cwis yng Nghlwb y Cameo, Nos Iau, Tachwedd y 4ydd am 7.30yh. Noson gymdeithasol a chyfle i ymarfer eich Cymraeg – felly beth am drefnu tîm?!

**Trip Sgio i Oedolion Menter Caerdydd**
Mae'r Fenter yn trefnu Penwythnos Hir o Sgio i Oedolion yn La Tania, Ffrainc fis Mawrth nesaf! Am £369 fe gewch chi hedfan yno ac yn ôl, gwely en-suite a brecwast (4 noson), pass sgio a'r holl offer. Yn ogystal, fe fydd gwersi sgio ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg am £50 ychwanegol. Cysylltwch â Sian am fwy o wybodaeth.

### Clybiau i Blant

**Nos Lun**
Clwb Dawns - Ysgol Pencae
**Nos Fawrth**
Clwb Jiwdo – Ysgol Pencae
Clwb Nofio – Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd
**Nos Fercher**
Clwb Celf – Neuadd Llanofer
Clwb Clocsio – Ysgol Gyfun Plasmawr
**Nos Iau**
Clwb Sbaeneg – Canolfan Gymunedol Treganna
**Nos Wener**
Clwb Gymnasteg – Ysgol Gyfun Plasmawr
**Bore Sadwrn**
Clwb Pêl-droed (Dosbarth Derbyn yn Unig) – Caeau Llandaf
Manylion pellach: 029 20565658

# Profiadau o Gaerdydd mewn cyfrol newydd o gerddi

Mae'n debygol fod cyfrol newydd o gerddi gan y bardd ifanc o Ben-y-bont, Mari George, sydd bellach wedi ymgartrefi yn Grangetown, yn torri tir newydd ar lawer achos: ynddi ceir y cerddi cyntaf sy'n trafod pynciau dyrys fel tyndra'r misglwyf a rhwydweithio: y weithred o gymdeithasu'n fwriadus er mwyn hyrwyddo gyrfa! Mae'r ddau bwnc yn nodweddiadol o'r casgliad blaengar hwn, sy'n llawn cerddi am brofiadau'r bardd wrth iddi ymgodymu â byw yn y Gymru gyfoes, gyflym, ddinesig.

Casgliad o gerddi sy'n sicr o apelio at ferched yn eu hugeiniau a'u tridegau yw hwn, er bod dynol-ryw yn ei holl gyfoeth yn cael ei gynrychioli yma. Bwrlwm bywyd, a'i eiliadau bregus, a geir yn y cerddi hyn. Cerddi degawd ydynt, degawd Mari George; mae siom yn y swyn a realiti yn y rhamant. Yng ngeiriau'r bardd, 'gobeithio eu bod yn dal byrhoedledd fy mhrofiadau'.

Treuliodd Mari chwe mis o'r flwyddyn ddiwethaf ym Mecsico, yn gweithio gyda phlant y stryd; ysbrydolwyd sawl un o gerddi'r gyfrol gan y profiadau dirdynnol ac unigryw a gafodd yno.

Golygydd Sgriptiau ac Awdur yn Adran Ddrama BBC Cymru yw Mari George, yn gweithio'n bennaf ar *Pobol y Cwm*. Graddiodd o Brifysgol Abertawe ac enillodd radd MA yno ar waith Wil Ifan. Mae'n gyn-enillydd Medal Lenyddiaeth a Chadair Eisteddfod yr Urdd ac yn aelod o dîm Ymryson yr Awyr Iach, tîm o feirdd o Forgannwg.
Y Nos yn dal yn fy Ngwallt
Mari George. Gwasg Gomer. £5.99.

**Mae cwmni dylunio Elfen yn edrych am lanhawr/glanhawraig i lanhau'n swyddfa ym Mae Caerdydd. Oriau a thâl i'w drafod, ond angen o leiaf 2 awr yr wythnos, yn y dydd neu gyda'r nos, neu dros y penwythnos? Ffoniwch 029 20484824**

# Calendr y Dinesydd

**Gwener, 8 Hydref**
Cylch Cadwgan. Y Prif Lenor Elfyn Pritchard yn siarad ar y testun 'Stori Bywyd' yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf, am 8.00 pm. Cydnabyddir cefnogaeth yr Academi Gymreig.

**Llun, 11 Hydref**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd. Noson yng nghwmni Mair ac Idwal Hughes, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 pm.

**Mawrth, 12 Hydref**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais. Noson yng nghwmni Cantorion Cantemus, am 7.30 pm.

**Mawrth, 12 Hydref**
Cymdeithas Eglwys Minny Street. Noson yng nghwmni'r Prifardd Dic Jones, am 7.30 pm.

**Gwener, 15 Hydref**
Cwmni Dawns Werin Caerdydd o Ganolfan i Ganolfan yng nghwmni Côr Caerdydd, Aelwyd CF1 a'r Cwmni Dawns yn y Gyfnewidfa Lo, Bae Caerdydd am 7.30. Tocynnau £6 oddi wrth 20565658.

**Gwener, 15 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Darlith gan yr Athro Branwen Jarvis ar 'Y Thomas Parry Ifanc', yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 pm.

**Sadwrn, 16 Hydref**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays. Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00, yn cynnwys sgwrs gan Dr E. Wyn James ar yr Esgob William Morgan. Croeso cynnes i bawb.

**Sul, 17 Hydref**
Cymanfa Ganu yn y Tabernacl, Yr Ais Caerdydd am 7.30 p.m. Arweinydd - Rob Nicholls; Organydd Huw Thomas. Eitemau gan gorau Ysgol Plasmawr a Glantaf. Croeso cynnes iawn i bawb.

**Llun, 18 Hydref**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Cynnal yr Arfordir.' Darlith gan Gail a Belinda (Ymddiriedolaeth Arfordir Morgannwg), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Llun, 18 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Sgwrs gan Meirion Prys Jones, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ym Methany, Rhiwbina am 7.30 pm.

**Mawrth, 19 Hydref**
Darlith Goffa J. E Caerwyn Williams a Gwen Williams am 2004. Fe'i traddodir gan Dr Peredur Lynch ar y testun 'Proffwydoliaeth a Chenedligrwydd yng Nghymru'r Oesoedd Canol', yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30 pm.

**Mawrth, 19 Hydref**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais. Sgwrs gan Gerallt Nash, 'Symud Tŷ y Ffordd Anodd', am 7.30 pm.

**Mawrth, 19 Hydref**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri. Seiat Holi. Panel: Heulwen Cooper, Carys Hall Evans, Lloyd Jones, Rowland Owen. Cadeirydd: Ann Jones. Yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 pm.

**Mercher, 20 Hydref**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Rhymney St, Cathays. Darlith ar y testun 'Dyddiadur Taid: J. T. Job a Diwygiad 1904' gan y Parch. Dafydd Job, am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 20 Hydref**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry. Siân Parry-Jones yn rhoi cyflwyniad ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 pm.

**Mawrth, 26 Hydref**
Cymdeithas Eglwys Minny Street. Sgwrs gan Hywel Gwynfryn, 'Y Merched yn Fy Mywyd', am 7.30 pm.

**Mawrth, 2 Tachwedd**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais. Cwis a chyri dan ofal y bobl ifainc, am 7.30 pm.

**Mercher, 3 Tachwedd–Gwener, 5 Tachwedd**
Theatr Genedlaethol Cymru yn perfformio'r cynhyrchiad Cymraeg cyntaf o ddrama William Shakespeare, 'Romeo a Juliet', yn Theatr Sherman am 7.30 pm. Tocynnau: 029-2064-6900.

**Gwener, 5 Tachwedd**
Cymdeithas Carnhuanawc. Cinio yng Ngwesty'r Churchills, Llandaf am 7.00pm. Y Siaradwr Gwadd: Harri Pritchard Jones. Tocyn: £15.00 am bryd tri chwrs. Cysylltwch â Nans Couch: 02920 753625.

**Gwener, 5 Tachwedd**
Cymrodorion Caerdydd. Noson yng ngofal Helen Prosser am lwyddiant mawr dysgu Cymraeg i oedolion. Yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.15 pm.

**Sul, 7 Tachwedd**
Cymanfa Ganu ar y thema 'Y Diwygiad, 1904-05', yn Eglwys y Crwys dan nawdd Pwyllgor Mawl Henaduriaeth Dwyrain Morgannwg Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Arweinydd: Mr Norman Harris; Organydd : Mr Emyr Roberts. I ddechrau am 2.30 pm. Mynediad am ddim ond fe wneir casgliad.

**Llun, 8 Tachwedd**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: 'Esgyrn Brau (Osteoporosis).' Sgwrs gan Dr Bethan Jones, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 pm.

**Mawrth, 9 Tachwedd**
Cymdeithas Tabernacl, Yr Ais. Ymweliad â Bethania, Maes-teg.

**Mawrth, 9 Tachwedd**
Cymdeithas Eglwys Minny Street. 'Fy Milltir Sgwâr' gyda Sybil Bevan, Peter Griffiths a Menna Wyn Roblin, am 7.30 pm.

**Mawrth, 9 Tachwedd - Iau, 11 Tachwedd**
Sioe Gerdd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, "Jesus Christ Superstar yn y Gymraeg" yn Sefydliad y Glowyr, Coed-Duon am 19.30. Tocynnau £6 i oedolion a £4 i blant drwy ffonio 01443 227206.

**Iau, 11 Tachwedd**
Cylchgrawn Cambrian. Y Wolf Tones yn galw pob rebel! Yn y Gyfnewidfa Lo, Bae Caerdydd. Tocynnau £15 - 01267 290719.

**Iau, 11 Tachwedd**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Noson dan ofal yr Athro Sioned Davies. Manylion pellach: 029-2065-7730 neu 029-2062-4878.

**Llun, 15 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Sgwrs gan Ann Rosser, ym Methany, Rhiwbina am 7.30 pm.

**Llun, 15 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Cyfrifiaduron Cymraeg.' Darlith gan Rhys Jones (Cymdeithas Gyfrifiaduron Prifysgol Cymru, Abertawe), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

***Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).***
Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar http://digwydd.caerdydd.org

## Rhoi'r *Byd* yn ei le

Fe glywsoch efallai am y cynllun i godi papur newydd dyddiol Cymraeg am y tro cyntaf erioed. Gyda'r rhifyn hwn o'ch papur bro mi fyddwch yn cael copi o'r *Byd* a gynhyrchwyd yn arbennig ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ei bwrpas yw lledaenu gwybodaeth am y cynllun hanesyddol hwn. Gobeithio y cewch chi flas ar ei ddarllen ac y byddwch yn ystyried ymuno â'n Clwb Cefnogwyr.

Papur dyddiol i Gymru gyfan fydd *Y Byd.* Ni fydd yn cystadlu mewn unrhyw fodd â'r papurau bro ond yn hytrach yn llenwi bwlch. Mae angen y naill a'r llall arnom. Bydd yr hysbysebwyr a'r sbonsoriaid yn y papur cenedlaethol yn rhai sydd am hysbysebu drwy Gymru benbaladr.

Rydym eisoes wedi cynnal cyfarfodydd mewn dwsin o lefydd yng Nghymru ac os na fuom yn eich ardal chi eto mi fyddwn yn siŵr o ddod dros y misoedd nesaf. Yn y cyfamser gallwch hefyd edrych ar ein gwefan www.ybyd.com neu ysgrifennu atom i gael taflenni neu gopïau pellach o'r papur i'w dosbarthu i gymdeithasau, grwpiau dysgwyr ac ati: Cwmni Dyddiol, Canolfan Mercator, Y Buarth, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1NN. *Ned Thomas, Cadeirydd Dyddiol Cyf.*

## Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd
## A fydd pethau'n dechrau gwella?

Mae'r chwyrligwgan o ddilyn Dinas Caerdydd dros yr ugain mlynedd ddiwethaf fel tase fe'n dechre troi eto ar ôl tymor cymharol dawel o sefyll yn yr unfan y llynedd.

Ydy'r clwb yn dawnsio'n ddall ar y dibyn ariannol? Mae'r diffyg buddsoddiad swmpus mewn chwaraewyr newydd, chwaraewyr o safon i gynnal her i frig yr Adran Gyntaf (neu'r "Bencampwriaeth" os oes awydd 'da chi ddefnyddio'r tric marchnata a ddigwyddodd dros yr haf ) yn realiti poenus i gefnogwyr y clwb. A yw'r garfan yn un hapus ? Mae'r sibrydion ers helynt "Whalley-gate", â'i seiliau yn y system taliadau bonws i'r chwaraewyr, yn awgrymu nad yw popeth yn *hyncidori* ymysg chwaraewyr Lennie Lawrence…a beth am sefyllfa'r rheolwr ei hun ? Bregus, ac yn gwaethygu yn ddyddiol. Ai asgwrn yr holl gynnen yw'r Stadiwm newydd - does dim newyddion cadarn am amserlen adeiladu na thenantiaid i'r parc manwerthu fydd ynghlwm yn y datblygiad ers meitin nawr. Ac i goroni popeth, mae'r Tywysog Bach, Robert Earnshaw, wedi symud chan milltir i fyny'r M5 i ymuno â chlwb West Brom.

Amserau cyfyng felly ar Barc Ninian - amserau tymhestlog? I rai efallai, ond i nifer o'r selogion, yn ôl i'r gilfan gyfforddus - theatr a drama ar ac oddi ar y maes. Pwy sydd eisiau gweld ein tîm ni yn setlo am ryw dymor hanner a hanner fel y llynedd ? Esgyn neu disgyn yw'r hwyl - mae'r angerdd nôl ar Barc Ninian - eilunod newydd yn ymddangos o'r tîm ieuenctid, asgellwr ifanc arian byw, Jobi McAnuff wedi dod o West Ham, digon o weiddi, o ganu ac o gnoi ewinedd - ffantastig !

Huw Owen

## Clwb Criced pentre'r Sili yn llwyddo

Ar ddydd Sul 22 Awst aeth dros bedwar cant o gefnogwyr y tîm criced i faes enwog Lords yn Llundain i weld eu tîm yn ennill y Cwpan am y tîm Criced Pentre Gorau yn y gystadleuaeth. Curon nhw dîm Exall a Wixford o 79 o rediadau. Sefydlwyd Clwb Criced pentre'r Sili hanner can mlynedd yn ôl ac felly roedd ennill eleni yn goron ar ddathliadau'r clwb.

## C.R.I.C.C.

Mae tymor rygbi newydd wedi cyrraedd ac mae 3 o garfanau CRICC wedi chwarae gemau yn barod.

Derbyniodd y garfan dan 12 wahoddiad i gystadlu mewn gŵyl ym Mhentyrch. Cafwyd gêm gyfartal yn erbyn Pentyrch ond colli fu`r hanes yn erbyn St. Josephs a Dinas Powys. Gartref ar yr un diwrnod enillodd y tîm dan 11 yn erbyn Senghennydd o 24 pwynt i 7. Sgoriwyd ceisiau gan Ifan Roberts [Ysgol Treganna]; Emyr Davies, Osian Afan Davies a Wil Roberts [Ysgol Y Wern].

Braf eto eleni yw gweld cymaint o rai ifanc dan 8 yn rhoi cynnig ar chwarae. O dan ofal eu hyfforddwr newydd prysur, Llŷr Williams, cafwyd gêm yn erbyn Senghennydd lle sgoriwyd cyfanswm o ddeunaw cais, 7 ohonynt gan CRICC.

Richard James-Price (1), Jesse Lipetz-Robic (1)[Mynydd Bychan]
Joseph Phillips (2), Henry Davies (2) [Melin Gruffydd]
Llŷr Roberts (1) [Pwll Coch]

Roedd yn rhaid i fechgyn CRICC chwarae yn erbyn cymysgedd o fechgyn dan 8 a 9 oherwydd prinder nifer y gwrthwynebwyr, ac mae hyn yn argoeli'n dda am weddill y tymor.

## Gŵyl Ffilmiau Sgrîn Caerdydd

Ddechrau Tachwedd y bydd Gŵyl Ffilmiau Sgrîn Caerdydd 2004 yn denu cynulleidfaoedd o bell ac agos i'r brifddinas, felly gwnewch yn siŵr y byddwch chi hefyd yn rhan o'r profiad! Dyma'r 16eg gŵyl ffilm genedlaethol i gael ei threfnu yng Nghymru, a'r uchafbwynt eleni fydd cyflwyno Gwobr D.M. Davies, un o'r gwobrau mwyaf ar gyfer ffilm fer yn Ewrop.

Mae dathlu talent Gymreig yn agos iawn at galon Gŵyl Sgrîn Caerdydd.Bydd rhaglen 2004 yn cynnwys dangosiad Premiere Byd Eang o *Mela* gan Ffilmiau'r Nant ar gyfer S4C yn ogystal â dros 45 o ffilmiau byrion newydd o Gymru.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sgrin: gwybodaeth@sgrin.co.uk neu ewch i'n gwefan: www.sgrin.co.uk

## Camp y bachgen o'r Barri

Llongyfarchiadau i David Davies, cyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun St Cyres Penarth ond yn frodor o'r Barri am ei gamp yn ennill y fedal efydd yn y ras 1500 metr yn y Chwaraeon Olympaidd yn Athen a thorri record Brydeinig yn y fargen.

## Tîm Criced Morgannwg yn dathlu

Mewn cystadleuaeth gemau un diwrnod enillodd tîm Criced Morgannwg yn erbyn Swydd Gaerhirfryn ym Mae Colwyn ar yr 22 Awst, gan gipio'r wobr am yr ail dro mewn tair blynedd.

Urdd Gobaith Cymru
Caerdydd a'r Fro - 2004/05

**Clwb Pêl-rwyd yr Urdd**
**Bob bore Sadwrn**
**rhwng 10 ac 11**
**yn Ysgol Howells**
**Croeso i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd a'r Fro**
**£2.50 y sesiwn. Cyfle gwych i wella eich sgiliau**

**Clwb Pêl-droed yr Urdd**
**Cyfle i wella eich sgiliau pêl-droed**
**£2 y sesiwn**
**Bob bore Sadwrn rhwng 9 a 10 ar gaeau Pontcanna**
**Croeso i Fechgyn a Merched blwyddyn 1 i 6 Ysgolion Cymraeg Caerdydd a'r Fro.**

**Am fwy o wybodaeth am y gweithgareddau uchod cysylltwch â**
**James Williams (029 20 803 354)**
**neu e-bostiwch james@urdd.org**